# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 547 · Tachwedd 2023 · 70c**

# Gwobrau i'r Gwernydd

Mae mis Hydref wedi bod yn fis arbennig iawn i ddwy o'r Gwernydd ac 'rydym yn falch iawn ohonynt am roi Gerlan ar y map.




## Lisa Jên - Cyflwynydd Gorau

Llongyfarchiadau mawr i Lisa Jên hefyd ar ennill gwobr BAFTA. 'Roedd y gyfres Stori'r Iaith yn gyfres o 4 rhaglen a roddodd gyfle i 4 wyneb adnabyddus fynd ar daith bersonol i ddarganfod mwy am hanes yr iaith Gymraeg. Un o'r wynebau yma oedd Lisa a chafodd ei henwebu am BAFTA am y cyflynydd gorau. Llwyddodd i ddod a'r BAFTA adref i Gerlan a 'rydym yn hynod falch ohoni. Os nad ydych wedi gweld y gyfres eto, cerwch i chwilio amdani ar Clic - mae'n werth i'w gweld!

## Carrie Rimes - Cynhyrchydd Bwyd Gorau

Mae gwaith caled ac arbennig Carrie Rimes yn datblygu ei busnes, Cosyn Cymru, wedi talu ar ei ganfed wrth iddi dderbyn gwobr arbennig yng Ngwobrau Bwyd a Ffermio Radio 4 a gynhaliwyd yng Nghasnewydd. Cipiodd Carrie a Cosyn Cymru'r wobr am y Cynhyrchydd Bwyd Gorau a derbyniodd ei gwobr gan y cogydd enwog Thomasina Myers. Llongyfarchiadau mawr i ti Carrie ac i'r tîm sydd gen ti yn dy gefnogi. Gwobr haeddiannol iawn!



## Y Gymraeg yng Nghymuned Pesda! – Clod Arbennig i Ddwy Ysgol

Mae plant Ysgol Abercaseg a Phen-y-Bryn, Bethesda, wedi derbyn clod arbennig am eu gwaith ym maes y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ysgol bresennol. Mae'r disgyblion wedi datblygu eu sgiliau llafaredd Cymraeg drwy ymarfer yr elfennau creiddiol hynny sy'n arwain at fod â gafael gadarn ar eu hiaith, megis dysgu patrymau brawddegau, ymestyn eu geirfa, datblygu eu cystrawen a'u gallu i dreiglo'n hyderus a naturiol.

Parhau ar dudalen 3...



# Llais Ogwan


## Rhif 547
Tachwedd 2023



**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


**Y Llais drwy'r post:**

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Neville Hughes**.

Y golygydd ym mis **Rhagfyr** fydd **Ieuan Wyn,** Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG
01248 600297
E-bost: ieuanwyn01@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 25 Tachwedd** os gwelwch yn dda. Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 14 Rhagfyr** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

## Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

# Dyddiadur y Dyffryn

**Tachwedd**

17 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00.
18 Eisteddfod Cadeiriol Dyffryn Ogwen. Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00yb.
22 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 5.00 – 8.00.
25 Ffair Nadolig Eglwys St. Cedol. Canolfan Glasinfryn am 2.00yp.
27 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00
28 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Rhagfyr**

02 Bore Coffi Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00
02 Ras Siôn Corn (Y Carnifal). Cychwyn o Glwb Rygbi Bethesda am 11.00.
04 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
04 Merched y Wawr Tregarth."Y Ffordd Sidan". Festri Shiloh am 7.00
05 Ffair Nadolig Capel Bethlehem, Talybont. Festri am 6.30.
06/07 Perfformiadau "Olifar". Ysgol Dyffryn Ogwen am 7.00
09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
09 Prynhawn Paned a Chacen Nadoligaidd gan Gyfeillion Rhiwlas. Neuadd Rhiwlas.
09 Taith Siôn Corn (Y Carnifal). Cychwyn o Plas Ogwen am 4.30.
09 Gig yn Neuadd Ogwen. Pys Melyn, Ynys, Ffenest.
11 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
11 Cymd. Hanes D. Ogwen. Dr. Gwen Angharad Gruffudd. Festri Jerusalem am 7.00
12 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
14 Te Prynhawn. Ysgol Dyffryn Ogwen. 2.00 – 3.00yp.
14 Gymdeithas Jerusalem. Dathlu'r Nadolig. Parchg. Huw Pritchard. Festri am 7.00.
14 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
17 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem am 7.00.
19 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Hydref**

| | |
|---|---|
| £30.00 | (63) Siân Esmor Rees, Bron Arfon, Rachub. |
| £20.00 | (123) Dilys Jones, Cefn y Bryn, Bethesda. |
| £10.00 | (141) Iona Wyn Jones, Pentref Llandygai. |
| £5.00 | (1) Angharad Hughes, Ffordd Pant, Bethesda. |

Parhad o dudalen 1...

"Fel ysgol, rydym wedi cynnal gweithgareddau ymhob dosbarth ac ar draws yr ystod oed, gan weld datblygiad sylweddol o ran hyder y disgyblion i gyd-weithio, trafod a pherfformio yn y Gymraeg," meddai'r Pennaeth, Gethin Thomas.

"Cafodd hyn ei nodi yn glir gan swyddogion gwasanaeth gwella ysgolion GwE a llywodraethwyr yr ysgol mewn adroddiad yn dilyn ymweliadau ar ddiwedd y tymor cyntaf.

"Yna, aethpwyd â'r sgiliau hyn allan o'r ystafelloedd dosbarth fel rhan o thema'r ail dymor, sef 'Cymraeg a Chymuned' a lansiwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi, gyda llu o weithgareddau ar y cyd â phartneriaid lleol."

Cafwyd sesiynau garddio, a roddodd gyfle i'r disgyblion ddod i adnabod y storfa gyfoethog o dermau natur sydd gan y Gymraeg, a chafwyd sawl taith dywys o amgylch yr ardal yng ngofal trigolion lleol a gyflwynodd agweddau ar hanes a daearyddiaeth y fro i'r plant.

Fel rhan o'r gweithgareddau, cafwyd enghraifft wych o bontio'r cenedlaethau hefyd, wrth i ddisgyblion y ddwy ysgol ymweld â chartref henoed Plas Ogwen a threulio oriau yn sgwrsio â'r preswylwyr.

Ychwanegodd Gethin Thomas: "Bu cyfle i rieni ymweld â'r ysgolion ar foreau agored er mwyn gweld gwaith eu plant a chwarae gemau bwrdd yn eu cwmni. Ein amcan oedd tanlinellu pwysigrwydd y Gymraeg fel iaith addysg, iaith gymunedol ac fel adnodd gwerthfawr sy'n cael ei feithrin a'i annog ar yr aelwyd.

"Dyma ddangos bod caffael a chynnal iaith yn rhywbeth y gellir eu gweithredu ar sawl lefel ond sy'n perthyn i'r un tapestri cyfoethog yn y bôn. Hynny ydi, mae datblygu sgiliau llythrennedd a llafaredd yn sylfaen hollbwysig.

"Ond er mwyn ennill llawnder y profiad o fod yn ddinesydd dwyieithog hyderus yng Nghymru'r dyfodol – Cymru 2050 a'i miliwn o siaradwyr Cymraeg, er enghraifft – rhaid wrth elfennau megis gwybodaeth o hanes lleol, ymwybyddiaeth o natur a daearyddiaeth yr ardal ac ymgysylltu cyson rhwng pobl â'i gilydd, o gefndiroedd a chenedlaethau amrywiol.

# Cymru Gudd trwy lun a stori

Yn ei lyfr newydd, Cymru Gudd, mae'r ffotograffydd tirluniau Dylan Arnold yn dod â lluniau trawiadol o adfeilion Cymreig yn fyw trwy rannu hanes yr adeiladau, a'r teuluoedd oedd yn byw ynddynt.

Mae'r llyfr yn cynnwys lluniau o adeiladau segur ac adfeilion anghofiedig yng ngogledd Cymru – o ogledd Ynys Môn i lawr i Fachynlleth a draw am Ddyffryn Conwy.

Yn Nyffryn Ogwen, mae ganddo hanesion a lluniau difyr o Ffynnon Llyffant a Llun Dulyn, gan gynnwys olion yr awyren Canberra drawodd Garnedd Llywelyn nol yn 1957.

Mae'r gyfrol hon yn ddilyniant i arddangosfa o'r un enw gan Dylan Arnold yn Storiel, Bangor nol yn 2019.

Bydd y gyfrol ar gael mewn siopau llyfrau lleol ac o wefan Y Lolfa o ganol Tachwedd. Pris y gyfrol yw £14.99.



Ffynnon Llyffant

## Gwasanaeth Nadolig Cymunedol

yng Nghapel Jerusalem
**Nos Sul, Rhagfyr 17 am 7.00yh**

Dewch i ddathlu'r Ŵyl yng nghwmni
**Côr Meibion y Penrhyn ac eraill**



**Mynediad am ddim**

GWNEIR CASGLIAD TUAG AT ACHOS DA. **CROESO CYNNES I BAWB**

### Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £10 | Llewela O'Brien er cof annwyl am benblwydd a marwolaeth Richard Cyril Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth. |
| £5.50 | Mrs. Amos, Glan Ogwen, Bethesda. |
| £3 | Mân Roddion drwy law Neville Hughes. |
| £25 | Andre Lomozik, Rhos y Coed, Bethesda. |
| £4.60 | Rhoddion amrywiol ardal Tregarth. |
| £10 | Er cof am Gwilym Ll. Williams, Maes Caradog, oddi wrth y teulu. |
| £20 | Teulu Molly Ann, Maes Coetmor, Bethesda. |
| £5 | Er cof am Jackie Davies. Mynydd Llandygai. Oddi wrth y teulu. |
| £10 | Iona Wyn Jones, Pentref Llandygai. |
| £20 | Eirwen a Dilwyn Owen, Erw Las, Bethesda. |

**Diolch yn fawr**

# Gwasanaeth Gwrando'r Samariaid

Mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth **gwrando** ar gyfer y rhai sydd yn unig, yn drallodus neu yn ystyried diweddu eu bywyd ac rydym ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Bydd y Samariaid yn ateb galwadau am gymorth bob 6 eiliad, gan ateb dros 3 miliwn o alwadau ffôn dros y flwyddyn. 116 123 yw'r rhif rhadffôn 24 awr y dydd ac mae ein Llinell Gymraeg ar gael bob nos rhwng 7 a 11 ar y rhif rhadffôn 0808 1640123. Mae'n bosib hefyd gysylltu trwy sgwrsio ar lein, testun neu ysgrifennu llythyr.

Wrth drafod teimladau o unigrwydd a diffyg cysylltiad a all arwain ar hunanladdiad, y gobaith yw y bydd hyn yn lleddfu'r teimladau o anobaith a bydd y galwr yn dod i sylweddoli bod modd gwella'r sefyllfa rywfaint. Weithiau mae siarad â rhywun anhysbys yn haws.

Gweledigaeth y Samariaid yw y bydd llai'n marw o hunanladdiad. Nid yw hunanladdiad yn anochel; mae'n bosib ei rywstro a chydnabyddir gan lawer o ymchwil mai'r allwedd i geisio rhwystro hyn yw'r cyfle i siarad a rhannu teimladau. Mae'r rhesymau am hunanladdiad yn gymhleth, ond tu ôl i bob ystadegyn mae unigolyn sydd yn gadael teulu a chymuned wedi eu dryllio gan eu colled.

Mae ein Cangen yn yr ardal hon ym Mharc Menai ym Mangor; edrychwch ar ein gwefan am ragor o wybodaeth www.samariaidbangor.cymru

Mae'r angen am wirfoddolwyr i helpu yn y gwaith pwysig yma yn barhaus ac yn enwedig rhai sydd yn Gymry Cymraeg er mwyn cynnal ein gwasanaethau Cymraeg. Os teimlwch y gallwch chi wirfoddoli, cysylltwch â ni i gael y manylion llawn drwy ffonio 01248 674984 (Ffôn Swyddfa, nid ar gyfer cymorth emosiynol) neu ebostiwch – recriwtio@samariaidbangor.org

**Tudur Williams**

## Nant Ffrancon

**Gwellhad Buan**
Bu sawl un o'r Nant yn sâl yn ddiweddar ac 'rydym yn anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan iddynt i gyd.

**Capel Nant y Benglog**
Bu i'r capel golli un o'i aelodau ar 2 Hydref pan fu farw Robert Lloyd Jones, Fferm y Garth yn 72 mlwydd oed. Brawd annwyl i Peter, Ann, Tomos a Margaret, a brawd-yng-nghyfraith ac ewythr hoffus. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Llun, 9 Hydref, yng nghapel Bethel, Pentrefoelas, gyda'r Parchedig Iwan Llewelyn Jones yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi yn Garth a Llanrwst.

## Mynydd Llandygai

**Diolch**
Dymuna Elwyn, Linda, Sheila, Kevin a theulu'r ddiweddar Jackie Davies, gynt o 5 Penrhiw, Mynydd Llandygai, ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth trist yn ddiweddar.

Carwn ddiolch i'r Ficer am wasanaeth gwerthfawr a theimladwy. Diolch hefyd, i'r ymgymerwr Gareth Williams am ei drefniadau trylwyr ac urddasol iawn.

Derbyniwyd rhoddion o £900, yn ddiolchgar er cof am Jackie, tuag at Ysgol Pendalar a Chlwb Ieuenctid Mynydd Llandygai. Diolch yn fawr iawn!

"Yn dawel hiraethwn, gyda chariad y cofiwn".


DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207


## Y Gerlan




**Llongyfarchiadau**
Er fy mod yn rhedeg fy hun, dwi'n rhyfeddu at bobl sy'n gallu rhedeg marathon, ac yn arbennig un mor heriol â Marathon Eryri. Un sydd wedi ei wneud ar fwy nag un achlysur ydi Megan Hughes, Ciltwllan. Llongyfarchiadau i ti am ei gwblhau eto eleni Megan, ac mewn amser arbennig iawn.

Llongyfarchiadau i Tomi Hughes Ciltwllan hefyd. Mae Tomi a rhai o'i ffrindiau wedi eu dewis i chwarae i sgwad pêl droed dan 13 Gwynedd. Da iawn chi.

**Diolch**
Diolch o galon i bawb ddaru fy noddi i, Caren, eto eleni wrth i mi gwblhau hanner marathon Caerdydd. Oherwydd caredigrwydd pawb, llwyddais i godi £635 i'r NSPCC. 'Roedd yr awyrgylch yno mor fywiog ag erioed a chymaint o bobl allan ar y stryd yn cefnogi yn ei gwneud yn ddiwrnod hwyliog iawn. 'Roedd 'na sawl un arall o Fethesda yn rhedeg ac yn codi arian, felly llongyfarchiadau mawr i bawb gymerodd ran.

Tair wythnos yn ddiweddarach, 'roeddwn yn lwcus iawn i gael teithio i Valencia i gwblhau hanner marathon yno efo fy ffrind ysgol Catrin Doyle – blwyddyn yn union ers i ni gwblhau hanner marathon Caerdydd efo'n gilydd llynedd. 'Roedd yn ddinas fendigedig a llwybr rhedeg hollol fflat i gymharu efo llwybrau Bethesda!

**Penblwyddi arbennig**
Penblwydd hapus iawn i Richard Temple Morris, Fferm Tan y Garth. 'Roedd Richard yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 yn ddiweddar a chafwyd parti arbennig o hwyliog yn y Clwb Rygbi ym Methesda efo teulu a ffrindiau. 'Roedd yn amlwg, oddi wrth y lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol, fod pawb wedi mwynhau. Noson i'w chofio!

Penblwydd hapus arbennig iawn i Phill "Pup" Evans, Ffordd Gerlan yn 65. Cofion arbennig iti gan Sal a'r teulu. Gobeithio gei di hwyl yn dathlu'r garreg filltir yma.

**Cydymdeimlo**
Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Nia a Chris O'Marah, Cai, Rhiannon a Callum o Gwernydd wrth golli mam, nain a hen nain arbennig iawn. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd fel teulu ar yr amser anodd yma.

**Adref o'r ysbyty**
'Rydym yn falch o glywed bod Sion Roberts, Ciltrefnus adra'n ddiogel ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Alderhay, Lerpwl. Gobeithio y byddi'n teimlo'n well yn fuan Sion ac y byddwn ni'n dy weld o gwmpas Gerlan efo nain a thaid (Bethan a Dylan) eto cyn bo hir.


MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE



Croeso
CANOLFAN TREGARTH
canolfantregarth@gmail.com www.canolfantregarth.net
Canolfan Gymunedol Tregarth
Tregarth Community Centre
Ffordd Tanrhiw - Tanrhiw Road
LL57 4AW
GWYNEDD
Rhif Elusen: 513351
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Canolfan Gymunedol Tregarth ar:
22 Tachwedd 2023 am 18:30
Pwyllgor Canolfan Tregarth

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Croeso i'r byd!**
Llongyfarchiadau i Alice a Jason Hughes, 5 Cae Gwigin, ar enedigaeth eu merch fach, Bobbi Lou, ar Hydref 12ed. Mae Perrie, ei chwaer fawr, yn ofalus iawn ohoni, a'r hogiau hŷn wedi gwirioni. Pob bendith arnoch.

**Diolch**
Dymuna Hughie a Rita Hughes, 7 Lôn Ddŵr, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu priodas ddiemwnt ym mis Hydref. Diolch i aelodau'r teulu a chyfeillion ac i griw Bwrlwm Bethlehem am ddathlu hefo nhw gyda chacan arbennig.

**Ar grwydr**
Mae Jake Andersen a Caitlin wedi cyrraedd Awstralia erbyn hyn a diolch i'r dechnoleg gyfoes, yn gallu rhannu eu profiadau efo'r teulu fel petaent ond tafliad carreg oddiwrthynt. Dyma ychydig o hanes y daith gan Jake;

"Rydym wedi bod yn Bangkok; Chiang Mai; Phuket; Koh Samui; Koh Phangan; Ynysoedd

Phi Phi a Krabi yng Ngwlad Thai.

Aethom i Hanoi; Da Nang; Hoi An; Bae Ha Long a Dinas Ho Chi Minh yn Vietnam.

Eto i weld Bali; Philippines ac Awstralia, wrth gwrs.

Uchafbwyntiau oedd ymwelaid â Lloches i Eliffantod yn Chiang Mai; taith mewn cwch ym Mae Ha Long, a thaith pedair ynys yn Krabi. Buom yn snorclo a nofio efo "bioluminescent plankton" a chael barbeciw.

'Dw i wedi bod yn ymarfer Muay Thai mewn campfa yn fan hyn.

Byddwn yn mynd i ddigwyddiad o'r enw "Parti Ola Leuad", sef Gŵyl anferth ar y traeth efo tua 30,000 o bobl eraill."

Pob bendith arnynt, a thaith ddiogel i le bynnag y byddant yn mynd nesaf.

**Penblwyddi**
Mae dau o'n pobl ifainc, ddrws nesaf i'w gilydd yn Dolhelyg, wedi cyrraedd carreg-filltir arbennig y mis diwethaf. Dathlodd Mathew, rhif 17, ei benblwydd yn un ar hugain a Chelsey, rhif 16, ei 30 oed.

Llongyfarchiadau cynhesaf i Ifan, Sŵn y Nant, ar gyrraedd carreg-filltir ychydig yn fwy na'r ddau uchod ar Hydref 16eg !

Ar yr un pryd, anfonwn ddymuniadau gorau'r ardal gyfan i Linda, ei wraig, sydd heb fod yn dda ei hiechyd ar hyn o bryd. Brysia wella, Linda.

**Gwellhad**
Wedi treulio wyth wythnos mewn tair ysbyty, mae Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, o'r diwedd, wedi troi ar wella ac yn gobeithio cael dod adref yn fuan. Brysied y dydd!

I bawb arall sydd o dan y don ar hyn o bryd, anfonwn ddymuniadau am wellhad llwyr a buan i chi i gyd.

**Calendrau Llais Ogwan**
Mae ychydig o galendrau ar ôl i bwy bynnag a hoffai brynu gen i, yn hytrach na chwilio yn y siopau lleol. £4.50 ydi'r pris. Diolch am eich cefnogaeth bob blwyddyn.

Diolch o galon i bawb sydd wedi talu imi eisoes am y 'Llais'. Wrth i rywun heneiddio, mae'n help garw i gael cwsmeriaid ffeind sy'n rhoi'r arian drwy'r drws.

SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
**Tachwedd 19**: Parchg. Geraint Roberts.
**Tachwedd 26**: Parchg. Olaf Davies.
**Rhagfyr 3**: Parchg. Cledwyn Williams.
**Rhagfyr 10**: Parchg. Gwenda Richards,
**Rhagfyr 17**: Oedfa Nadolig.
**Rhagfyr 24**: Dim Oedfa.
Croeso cynnes i bawb.

*Y Diolchgarwch*
Cynhaliwyd oedfa arbennig ar Sul, 22 Hydref, yng nghwmni aelodau a chyfeillion. Ar ddiwedd yr oedfa mwynhawyd cyfle i flasu ychydig o gynnyrch cartref. Diolch i Barbara am drefnu popeth mor drylwyr.

Diolch iddi hefyd am ei gwaith allweddol gydag Apel Banc Bwyd y Capel ar gyfer y Diolchgarwch. Fe gasglwyd tomen o fwydydd y tu hwnt i'n disgwyliad, nes oedd y car i'w cludo i Fethesda yn llawn dop.

Diolch yn fawr iawn i bawb, yn aelodau'r capel a chyfeillion, a gyfrannodd nwyddau ac arian tuag at yr achos teilwng yma! Hwb Ogwen sydd yn edrych ar ôl y Banc Bwyd ym Methesda, ac fe dderbyniwyd nodyn o ddiolch a gwerthfawrogiad oddi wrth eu rheolwraig, Marie Hodson.




*Ffair Nadolig*
Edrychwn ymlaen at ein Ffair Nadolig Flynyddol sydd i'w chynnal eleni ar nos Fawrth, 5 Rhagfyr am 6.30.
Elw at y Capel wrth gwrs. Croeso cynnes i bawb fel arfer.



**'Aur' i Dalybont**
Mae Mitchell Jones, 80 Bro Emrys, wedi ennill medal aur ym Mhencampwriaeth yr HSK Box Cup a gynhaliwyd yn Nenmarc yn ddiweddar. Ar hyn o bryd, mae 'n teithio i Gaerdydd i gymeryd rhan mewn profion ar gyfer Sgwad Cymru.

Dalia ati, Mitchell; rydan ni'n falch iawn ohonot.

Ym mis Hydref, teithiodd Avaya Gross, 8 oed, o 33 Bro Emrys i Lannau Dyfrdwy ar gyfer Rownd Derfynol Pencampwriaeth Gymnasteg Cymru. Daeth Avaya yn gyntaf yn ei Dosbarth, Zinc 8. Mae hi'n hyfforddi'n galed iawn ac yn llwyr haeddu'r tlws hardd a welwn yn y llun. Hwyl fawr iti i'r dyfodol, Avaya.

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Clwb Hanes Rachub**
Daeth bron i hanner cant o bobol ynghŷd yng Nghlwb Criced Bethesda i wrando ar sgwrs wych yn dwyn y teitl 'Corlannau'r Carneddau' gan y ffotograffydd Nigel Beidas. Cafodd Nigel olwg wahanol iawn ar y corlannau/buarthau ers iddo brynu drôn tua pedair mlynedd yn ôl, a gallu gweld y siapiau a'r patrymau unigryw o'r awyr, yn hytrach nag o'r tir. Dangosodd i ni, nifer fawr o sleidiau, ac roedd yr hanesion diddorol oedd ganddo am bob ffotograff yn portreadu dyfnder ei waith ymchwil yn y maes. Bu'n treulio oriau lawer yng nghwmni amaethwyr yr ardal, gan ddysgu o'u profiad am ddefnydd o'r corlannau, ac am arferion hen a newydd. Soniodd am swyddogaethau'r gwahanol gelloedd o fewn y gorlan, e.e. corlan gynefino, corlan gasglu, corlan ddidoli, a dysgwyd bod cell i bob fferm unigol yn ogystal â chell i'r defaid coll. Roedd tyllau rhwng pob cell er mwyn hwyluso'r gwaith o ddidoli'r defaid. Soniodd Nigel hefyd am gorlannau tebyg iawn mewn gwledydd eraill fel Croatia a'r Swistir, a cawsom glywed am gysylltiad corlannau'r Carneddau â'r merlod mynydd, yn ogystal â'r porthmyn. Defnyddiwyd y cerrig oedd ar lethrau'r mynyddoedd i adeiladu amrywiaeth o gytiau a waliau a.y.y.b. gan gynnwys trapiau llwynogod, cytiau mynn a llochesi bugeiliaid. Cewch hanes y corlannau mewn manylder, yn ogystal â chael cyfle i weld y ffotograffau gwych ar wefan Nigel Beidas – www.cofnodicorlannau.org

Diolch yn fawr, Nigel, am ddarlith wefreiddiol, ac i Dr. John Llywelyn Williams am ei gyflwyniad ac am arwain trafodaeth ar ddiwedd y ddarlith.

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Tachwedd 29ain, pan fydd Mr. André Lomozik yn dangos 'Taith Hanesyddol mewn Lluniau'.

**Cyngor Cymuned Llanllechid**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref ar y 12fed o Hydref yn Festri Capel Bethlehem, Talybont. Croesawyd Cynghorydd newydd Llanllechid Isaf, sef Rhydian Williams i'w gyfarfod cyntaf.

Cais gan Y Cyngor Cymuned, os oes unrhyw finiau halen yn y plwyf angen eu llenwi rhowch wybod i'r clerc drwy ebost, cyngorllanllechid@ogwen.org os gwelwch yn dda.

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

### Capel Carmel


*Gwasanaethau*
*(am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
**Tachwedd 19**: Parchg. Dewi Morris. (2 o'r gloch)
**Tachwedd 26**: Cyfarfod y Chwiorydd.
**Rhagfyr 3**: Parchg. Alan Spencer.
**Rhagfyr 10**: Parchg. R. O. Jones.
**Rhagfyr 17**: Oedfa Nadolig.
Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB

**Rhodd**
Rydan ni'n diolch yn fawr i deulu'r diweddar Mr Thomas Jones am eu rhodd hael tuag at yr Ysgol Sul a'r ieuenctid yng Ngharmel. Rydan ni'n gwerthfawrogi'r rhodd yn fawr iawn. Diolch unwaith eto i Alan, Colin, a Carys a'u teuluoedd nhw.

**Diolchgarwch am Y Cynhaeaf**
Yn ôl ein harfer dros y blynyddoedd, gwasanaeth yng ngofal y plant a'r bobl ifanc yw hwn. Roedd y plant yn canu eu gorau ac yn rhoi mwynhad i bawb yn y gynulleidfa a oedd yn gwrando arnyn nhw. Roedd cyfraniad y bobl ifanc yn ardderchog hefyd a diolch iddyn nhw am eu gwaith a'u ffyddlondeb i Glwb Dwylo Prysur. Mi gawsom ni i gyd fendith wrth gydaddoli hefo'r ifanc er mwyn diolch am ein cynhaliaeth ni drwy gydol y flwyddyn. Da iawn wir. Roedd y casgliad o £200 i'w roi tuag at gronfa "Ffynhonnau Byw" Cymorth Cristnogol.

**Hysbyseb**
Gwasanaeth Nadolig y Plant a'r Ieuenctid




Nos Sul 17 o fis Rhagfyr am 5 o'r gloch Croeso cynnes i bawb Casgliad at Apêl Ffynhonnau Byw Cymorth Cristnogol.

Anrheg Nadolig Perffaith! Llyfr yn llawn o luniau lliwgar! Cawn yma gipolwg ar weithgareddau difyr plant Ysgol Sul Carmal dros gyfnod o 65 mlynedd! Bargen am £5.00! Ar gael yn awr. Cysylltwch â Mrs. Helen Williams, Llwyn Bleddyn.

**Te Bach**
Cynhaliwyd ein Te Bach achlysurol yn yr ysgoldy ar bnawn Llun 23 o fis Hydref. Daeth nifer dda yno ac roedd hi'n braf iawn cael croesawu pawb i gael panad, lluniaeth ysgafn a sgwrs gyda'n gilydd. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi, mi fydd y Te Bach nesaf, sef Te Bach y Nadolig, yn cael ei gynnal ar bnawn Llun, 4 o fis Rhagfyr. Croeso i bawb fel pob amser.



**Llun rhai o'r plant hefo cynnyrch y cynhaeaf.**

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Cylch Glasinfryn**
Cawsom bnawn difyr iawn yn y Cylch ar 11 Hydref yng nghwmni Cadi Iolen, Uwch Guradur yn Amgueddfa Llechi Llanberis. Rhoddodd Cadi sgwrs drwy gyfrwng lluniau ar eitemau oedd wedi bod yng nghasgliad yr Amgueddfa Lechi dros 50 o flynyddoedd.

Dewisodd dri o rai o'i hoff eitemau. Un ohonynt oedd cadair eisteddfod oedd wedi cael ei gwneud gan ddynion y chwarel. Esboniodd fel y byddai'r chwarelwyr yn ymgynnull yn y Caban amser cinio i drin a thrafod materion cyfoes, cystadleuthau barddoni a hyd yn oed eisteddfod, a dyna sut mae cadair eisteddfod ym meddiant yr Amgueddfa. Esboniodd Cadi y buasai llawer o'r dynion yn fechgyn ifanc oedd wedi gadael ysgol yn eu harddegau i weithio yn y chwarel er mwyn ennill cyflog i helpu bwydo teuluoedd mawr oedd yn bodoli yr adeg hynny. Yn yr oes fodern buasai rhai wedi cael aros yn yr ysgol a mynd ymlaen i goleg i orffen eu haddysg. Cawsom deithio drwy gyfrwng lluniau o gwmpas tŷ un o'r chwarelwyr, un o res o dai Fron Haul oedd wedi eu cyrchu, garreg wrth garreg o Flaenau Ffestiniog. Dangosodd hefyd ddarlun oedd wedi ei baentio gan un o arlunwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac fel y mae'r lluniau hyn yn dweud llawer wrthym am y bobol a gweithwyr y cyfnod, yn wir yn agor ein llygaid ar sut i edrych a dehongli llun!

Diolchwyd i Cadi gan Marian Bryfdir, un a fagwyd yn 'Stiniog oedd yn cofio y rhes tai Fron Haul! Diolch Cadi am sgwrs addysgiadol werth chweil.

Wedi trafodaeth penderfynwyd mynd am bryd ysgafn amser cinio eto eleni yn mis Rhagfyr. 'Roedd Carole wedi cael bwydlenni Bistro Seiont, Ponrug a gofynwyd i bawb ddewis erbyn mis nesaf. Mair a Glenys ddarparodd y baned a Jocelyn enillodd y raffl.

**Bingo**
Cafwyd noson Bingo ar 27 Hydref yn y Ganolfan tuag at Cymdeithas y Deillion, Gogledd Cymru. Gwnaed elw o £125. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag y noson. Cynhelir Bingo Nadolig gyda lluniaeth ysgafn ar 1 Rhagfyr, gyda'r elw yn mynd at Ysgol Pendalar. Gwnewch nodyn bydd y Bingo yma yn dechrau am 6.30yh.

**Profedigaethau**
Cydymdeimlwn a theuluoedd a ffrindiau Mr John McSweeny, Tyddyn Waen, Waen Wen fu farw ar 5 Hydref. Hefyd Mr Ken Hughes, 6 Caerhun, fu farw ar 6 Hydref.

**Y Ganolfan**
Cynhelir Gweithdy Gwneud Torch Nadolig ar 28 Tachwedd a 5 Rhagfyr, o 1yp - 3yp gyda Rachel Williams. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Rachel ar 07890549910, neu drwy ebost - darksideofthebloomfloristry@gmail.com

**Calendrau**
Mae Calendrau Llais Ogwan ar werth am £4.50. Os hoffech brynu un cysylltwch â Mair os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi dod a'u tâl Llais Ogwan am y flwyddyn i mi, mae yn gwneud bywyd yn haws!


# Llyfr Buddugol Isabel Adonis (Parhad)

"*And...a Memoir of My Mother*". Enillydd Llyfr Cymreig y flwyddyn 2023 – Creadigol Anffuglennol. Cyhoeddwyd gan Black Bee Books.

(Bras gyfieithwyd pigion Isabel gan Neville Hughes)

Roedd tad fy mam yn siopwr a groser ac fe'i galwai ef yn Johnny William Hughes neu Johnny Willy. Ac yn ei siop fe wrthai facwn, menyn, bara, siwgwr Demerara a "cocoa Fry's" a bwyd Mellin. Roedd "Fry's Chocolate" wedi ei ysgrifennu ar ffenest y siopyn ogystal â "Rowntrees Cocoa" a "Rowntrees Pastilles" a "Carbosil" a "Mellins Food" a Horlicks. Roedd dwy ffenest y siop yn llawn dop o duniau "bîns" a thuniau pys a "corned beef".

Yn 1900-1903 'roedd Y Streic Fawr, un o'r streiciau hiraf yn Hanes Undebau Llafur Prydain. Roedd y dynion a weithiai yn y chwarel yn methu dioddef y ffordd yr oedd yr Arglwydd Penrhyn yn eu trin. Ac fe adeiladodd yr Arglwydd Penrhyn res o bai ar gyfer y dynion oedd am ddychwelyd i weithio, ac fe'u galwyd yn fradwrs, sef "traitors" yn Saesneg. Ac fe ymddangosodd yr arwydd "Nid oes Bradwr yn y tŷ hwn" ar rai o'r tai yn yr ardal. Arweinydd y chwarelwyr oedd W.J.Parry o Coetmor Hall ger Ffarm Coetmor oedd yn ymyl Lôn Newydd Coetmor ac Eglwys Coetmor ble bum yn cerdded hefo Bob a'r genod pan fu farw mam.




**"Nid oes Bradwr yn y tŷ hwn"**

'Roedd llawer o'r merched yn llwgu, a bu raid iddynt adael y dref, ac 'roedd llawer o'r plant ar lwgu hefyd, ond roedd y bobol yn bobol falch ac yn sefyll yn erbyn pwer un dyn. Ac ynghanol hyn i gyd roeddent mor falch, yn sefyll yn gadarn, yn cadw'n lân a thaclus eu gwisg yn ogystal a chadw eu tai yn daclus. Ac os gallaf sôn am un rhinwedd oedd yn perthyn i fy mam, ei chadernid i wrthsefyll dioddefaint oedd hwnnw, yn union fel y cymeriad a berthynai i'r dref hon.

Mae 'na rhyw brydferthwch a dirgelwch ynglŷn â thref Bethesda sydd yn denu ysgrifenwyr ac artistiaid. Enwau rhai ohonynt oedd Caradog Prichard a Peter Prendergast, ond wrth gwrs roedd yna lawer mwy ohonynt nas gwn eu henwau. Ac mae yno rhywbeth arbennig yno sydd yn eu derbyn nhw, ac yn derbyn y rhai sydd yn debyg o wneud rhywbeth efallai ynghyd ag eraill sydd yn anhebygol o wneud dim byd, rhyw fath o ddidwylledd hyd yn oed ynghanol chwerwder. Mae rhyw fath o gyfeillgarwch ac agosatrwydd yno, fel mam, ac mae yna ysbryd cymunedol o hyd tebyg i'r hen gymuned oedd â'r gair llechen mor bwysig.

Naddwyd y llechen gan ddynion, ac fe weithiwyd y llechen gan ddynion ond benywaidd fu'r llechen erioed. Galwyd rhai dynion "mewn clofar" a dynion eraill yn "hogia'r jacdo". Enw a roddwyd ar chwarelwyr a'u dyfodol yn edrych yn ddu oedd "hogia'r jacdo". Ac yn y dref honno a alwyd yn Bethesda 'roedd chwarelwyr y llechen yn gorfod talu i'r Arglwydd Penrhyn am y fraint o gael ffrwydro'r graig, am drin y llechen a'u torri i feintiau gwahanol. Ac fe roddwyd enwau arbennig i'r gwahanol ddarnau o lechi yn ôl eu maint. Enwau fel 'singles' a 'doubles' a 'double doubles' a 'double double doubles' a hyd yn oed 'double double double doubles'. Ond fe newidiwyd yr enw'double doubles' i 'ladies' a 'double double doubles' i 'countesses' ac fe newidiwyd 'double double double doubles' i 'duchesses'. Ac fe alwyd y llechi mwyaf yn 'marchionesses' a 'queens'.

Roedd yna ddwy chwarel, a mwy, un oedd Pant Dreiniog a'r llall oedd Penrhyn, un ar un ochr i'r dyffryn a'r llall ar yr ochr arall. Dw' i ddim yn gwybod ble oedd y chwareli eraill.'Roedd gan y chwarelwyr geir gwyllt.

Chwarel y Penrhyn oedd y chwarel gyfoethocaf ym Mhrydain yn 1765 oherwydd bod teulu'r Penrhyn wedi gwneud elw mawr o gaethwasiaeth.

**Mae'r llyfr ar gael ar lein: isabeladonis@hotmail.com**

SIOP OGWEN
yn cynnig gwasanaeth
CLIC A CHASGLU
Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

**Cydymdeimlo**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Magwen, merch Maud a'i diweddar ŵr, Cledwyn. Anfonwn ein cofion at Mai a Derek, Bro Rhiwen. Roedd Magwen yn nith iddynt. Cofion atoch fel teulu.

Cydymdeimlwn hefyd a Leslie Frost sydd wedi colli ei gŵr, Dave, ac at eu meibion Gary a Martin.

**Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**
Eleni mae'r Cyngor wedi rhoi 5 cyfraniad o roddion i'r pentref. Llawer o ddiolch iddynt.

**Ysgol Rhiwlas**
Llongyfarchiadau i Ceri Medway, athrawes yn yr ysgol, sydd wedi cael bachgen bach, Osian. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Wedi blynyddoedd o fod yn Ofalwraig, yn Ysgol Rhiwlas, mae Maggie Picton wedi ymddeol. Mwynha dy ymddeoliad, Maggie. Byddwn yn colli dy weld yn mynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

Yr Ofalwraig newydd fydd Rhian Jones, Bro Rhiwen, gynt, ond bellach yn byw yn Tan y Weirglodd. Pob dymuniad da i tithau Rhian.

**Merched y Wawr**
Cawsom gyfarfod difyr ym mis Hydref. Roedd Nia wedi paratoi cwis diddorol ar ein cyfer.

Carol a Dilys oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl. Diolch iddynt.

**Clwb Rhiwen**
Cafwyd sesiwn o Tai Chi, a phawb wedi ei fwynhau.

**Gwellhad Buan**
Cafodd Mrs Irene Jones, Bron y Waun, driniaeth yn yr ysbyty. Brysia wella Irene.



**Enwi'r Tedi**
Mae 'na arth bach clên yr olwg wedi ymgartrefu yn Rhiwlas yn ystod yr wythnosau diwethaf 'ma. Ond o le daeth o, meddech chi? Gareth Williams, Caeau Gleision, wnaeth ei ennill mewn cystadleuaeth 'Enwi'r Tedi' a drefnwyd gan Costa, Bangor. A'r enw a ddewisodd Gareth? – Pebble. Croeso mawr iti i'r pentref, Pebble, a llongyfarchiadau Gareth ar dy gamp!

Mae Daniel Jones, Caeau Gleision wedi brifo'i goes wrth chwarae rygbi. Dymunwn wellhad buan iti.

Cofion hefyd at y rhai sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

**Paned a Chacen Nadolig**
Fe fu'r prynhawniau paned a chacen a drefnir gan Gyfeillion Rhiwlas yn boblogaidd iawn eleni ac mae un arbennig i ddathlu'r Nadolig ar ei ffordd! Gwnewch nodyn o'r dyddiad – dydd Sadwrn, Rhagfyr 9. Cadwch eich llygad ar agor am fwy o fanylion yn nes at yr amser ar dudalen Facebook y Cyfeillion ac ar wefan y Neuadd ar www.neuaddrhiwlas.cymru

## Barn cymunedau yn y Dirwedd Llechi

Fel bydd rhai ohonoch yn ymwybodol, mae Llechi Cymru wrthi'n cynllunio prosiect £1.5miliwn i gefnogi cymunedau yn y Dirwedd Llechi i elwa o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd. Er mwyn gallu mesur unrhyw fudd mae gwerthuswyr y prosiect yn awyddus i gasglu gwybodaeth a barn cymunedau am y sefyllfa bresennol. Pe byddech yn fodlon darllen yr ebost isod ac ateb yr holiadur byr mi fyddai o fudd mawr wrth inni sefydlu'r prosiect ac yn ein helpu i gael y gorau allan o'r prosiect i gymunedau.

Prynhawn da,
Rwy'n cysylltu â chi mewn perthynas â phrosiect Cyngor Gwynedd a ariannwyd gan Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol - 'Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru; ein dynodiad, ein balchder, ein dyfodol'. Rwy'n falch iawn o fod yn rhan fach o'r prosiect cyffrous hwn, gan helpu Cyngor Gwynedd a'u partneriaid i lunio cynllun gwerthuso a fydd yn casglu tystiolaeth o'r gwaith gwych a fydd yn cael ei wneud, a'r canlyniadau a gyflawnir ar gyfer eich cymunedau lleol. Ein tasg gyntaf yw casglu rhywfaint o 'wybodaeth sylfaenol' fel bod gennym rywbeth y gallwn fesur cynnydd yn ei erbyn wrth i'r prosiect ddatblygu. Mae gennym ddiddordeb mewn cael gwybod gan bobl leol beth maent yn ei wybod ar hyn o bryd am eu treftadaeth leol, beth sy'n bwysig iddynt, a beth yw eu blaenoriaethau ar gyfer y dreftadaeth honno. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech ddilyn y ddolen isod, a threulio 10 munud yn llenwi ein harolwg arlein. www.surveymonkey.co.uk/r/LlechiCymru

Diolch am eich amser a dymuniadau gorau, **Dave Horton** (ar ran Gareth Kiddie Associates)

# YSGOLION ABERCASEG A PENYBRYN

**Pythefnos 3P- Pwerau Dysgu, Profiadau a Phedwar Diben**

Does dim dwywaith amdani, bod 'Pythefnos 3P' wedi bod yn llwyddiant ysgubol eto eleni. Ond beth yw pwrpas 'Pythefnos 3P' meddech chi? Sut gychwynnodd yr holl beth?

Wel, heuwyd yr hedyn cyntaf y llynedd pan ofynnwyd i'r plant greu gweledigaeth newydd sbon i'r ysgol. Y peth pwysicaf i'r plant oedd eu bod yn cael ystod o brofiadau diddorol a heriol, a'u bod yn cael cyfleoedd di-ri i ddefnyddio'r pwerau dysgu, sef y pwerau hud sydd yn greiddiol ar gyfer llwyddo mewn unrhyw beth mewn bywyd. Y pwerau i allu canolbwyntio am gyfnodau hir, gweithio'n galed, dyfalbarhau, i allu dychmygu, i wella eu hunain, i gymryd risg ac ymdrechu os ydynt yn wynebu anhawster.

A dyna fu, bu'r Cyngor Ysgol wrthi fel lladd nadroedd yn cynllunio, trefnu, hysbysebu llu o weithgareddau i sicrhau bod y plant yn cael wythnos i'w chofio.

Eleni, mae'r wythnos bellach yn bythefnos. Pythefnos o weithgareddau hwyliog, a heriol sydd yn rhoi'r cychwyn gorau i bob plentyn yn eu dosbarthiadau newydd, gan roi profiadau unigryw, ac amhrisiadwy i'r holl ddisgyblion. Profiadau sydd am roi'r adenydd iddynt hedfan, a'u paratoi ar gyfer y byd mawr.

Cawsant brofiad o wersi drama gan yr amryddawn Cefin Roberts o Ysgol Glanaethwy. Sesiynau loga gan Leisa Mererid, dawnsio gan Dawns i Bawb. Bu Mr T(Cerddamdani) yn cynnal sesiwn hwyliog o gyfansoddi a pherfformio, a bu rhai yn barddoni gydag Osian Owen. Cadw'n heini gyda Marvin gyda sesiynau Kick boxing oedd ar y gweill un prynhawn, a dysgu sgiliau hanfodol cymorth cyntaf gan Ambiwlans St John ar ddiwrnod arall. Bu ymweliadau i'r rhaffau uchel yn Llanberis, a'r ganolfan ddŵr Conwy, a thaith gerdded noddedig o amgylch yr ardal leol. Cafodd y plant sesiwn Gelf arbennig gan Elen, a chyflwyniad holl bwysig am waith anhygoel yr NSPCC. Oedd wir, roedd rhywbeth at ddant pawb.

Do, bu bwrlwm a chynnwrf ym Mhenybryn am bythefnos, a phawb wedi elwa o'r holl brofiadau. Hir oes i 'Bythefnos 3P' a diolch i bawb a gyfrannodd, rydym yn gwerthfawrogi'n fawr iawn.









**Chwaraeon**

**Pêl-droed**: Llongyfarchiadau i dîm marched Ysgol Pen-y-bryn am chwarae mor arbennig a chynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd yn Nhreborth. Ennill pedair gem a cholli o un gôl yn unig yn y rowndiau terfynol oedd eu hanes....Ymlaen a ni i'r gêm nesaf!

**Rygbi**: Cafodd holl ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 y cyfle i chwarae a mwynhau yng nghwmni disgyblion eraill y Dyffryn yn yr Ŵyl Rygbi ar gaeau Dôl Dafydd ym Methesda. Gŵyl wedi'i drefnu'n dda gan Osian, ein Swyddog Datblygu Rygbi'r ardal. Diolch am y gwaith trefnu.





**YSGOL ABERCASEG**

**Wythnos Cymru Cwl**

Wel am wythnos i gloi hanner yr Hydref yma'n Ysgol Abercaseg. Yn flynyddol bellach rydym yn cael wythnos 'Cymru Cwl' sydd yn dathlu ein Cymreictod a'n diwylliant arbennig yma yng Nghymru. Cawsom wledd eto eleni yng nghwmni artisitaid fel Tudur Phillips yn dysgu'r plant sut i glocsio, a chael cyd-ganu gyda neb llai na Osian Candelas. Braf oedd gweld plant blwyddyn 1 a 2 yn cael y cyfle o ysgrifennu cerdd am yr Hydref gyda'r awdur Casia Wiliam.

Diolch i'r artisitiaid am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd yn ystod yr wythnos hon. Heb os, mae'r plant a'r staff wedi cael modd i fyw.

**Eisteddfod Ysgol – am y tro cyntaf erioed!**

Pinacl yr wythnos oedd cael Eisteddfod Ysgol am y tro cyntaf! Am dalent! Mae dyfodol Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiogel iawn gyda'r lleisiau yr ydym wedi eu clywed yn ystod yr Eisteddfod! Braf iawn oedd cael y plant a'r rhieni yn rhan o'r profiad ac heb os yn dod a'r thema 'Eisteddfod' yn fyw. Edrychwn ymlaen at yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf gan obeithio am fwy o gystadleuthau i'n diddanu!

Dymunwn fel Ysgol ddiolch i'r plant am eu hymdrechion o ddysgu'r darnau mor wych ac am ddangos ffaswin ymroddiad a brwdfrydedd. Ymlaen â ni i Eisteddfod Dyffryn Ogwen!

# YSGOL TREGARTH

Dyma ni ar ddiwedd yr hanner tymor cyntaf o'r flwyddyn ysgol. Bu'n hanner tymor prysur a hapus ac mae pawb yn edrych ymlaen at y gwyliau haeddiannol! Dyma ychydig o hanes yr wythnosau diwethaf.

### Gwasanaeth gan y Parch Sara Roberts

Roedd hi'n braf cael croesawu'r Parchg. Sara atom ar gychwyn y mis. Daeth atom i gynnal gwasanaeth diolchgarwch ac ymunodd pawb i ganu, 'Tu ôl i 'r dorth' ar ôl clywed sut mae bara yn cael ei gynhyrchu. Diolch i chi ac rydym yn edrych ymlaen i'ch gweld eto yn fuan.

### Cyngor Ysbrydol – casglu bwyd at y banc bwyd ym Methesda

Gan ei bod yn nhymor diolchgarwch, penderfynodd y cyngor ysbrydol y byddai'n dda cefnogi y banc bwyd ym Methesda. Cafodd y criw gyfle i egluro i 'r ysgol gyfan yn y gwasanaeth boreol pa mor bwysig ydi cefnogi'r banc bwyd. Diolch i'r rhieni sydd wedi cyfrannu bwyd, roedd nifer o focsys a bagiau yn llawn bwyd yn gadael yr ysgol.

### Pêl-droed

Cafodd genethod blynyddoedd 5 a 6 gyfle i gymryd rhan mewn twrnament pêl-droed yn Nhreborth ddiwedd mis Hydref. Roedd y genethod wedi chwarae'n dda iawn gan ennill ambell gêm sydd yn wych o ystyried nad ydi'r genethod wedi cael llawer o brofiad o chwarae mewn twrnament fel hyn o'r blaen. Da iawn chi am gynrychioli'r ysgol mor dda genod!

### Gweithgareddau 'coed gwyllt'

Daeth Harri Pickering draw i'r ysgol wythnos diwethaf a chynnal sesiwn gyda phlant dosbarth Ogwen yn edrych ar adnabod hadau a choed gwahanol. Ar ôl dysgu yn y dosbarth, cawsom y cyfle i fynd tu allan i chwilio am rai o'r hadau a'r dail o gwmpas yr ysgol a'r pentref.



Casglodd y plant nifer o hadau gwahanol ar eu taith ac yn gallu dweud pa hadau sy'n perthyn i sut fath o goeden. Diolch Harri am y cyfle.

### Diwrnod 'Shwmae, Su'mae!'

Ar ddiwrnod 'Shwmae, Su'mae', bu plant yr ysgol yn dathlu'r Iaith Gymraeg wrth wisgo dillad coch neu dillad traddodiadol i'r ysgol. Yn ystod y diwrnod, aeth criw y Siarter Iaith o gwmpas yn gwrando ar blant yn siarad Cymraeg ac yn rhannu sticeri i ddathlu'r diwrnod. Diolch yn fawr i'r criw am eu brwdfrydedd a'u hannogaeth drwy gydol y diwrnod.

# Difyrion Digidol

## Deian ap Rhisiart

Ymhlith y cyfoeth celfyddydol a diwylliannol sydd o fewn ein cyrraedd ar blatfform Ambobdim, mae cyfres tu hwnt o ddifyr - Yr Hen Iaith sydd wedi'i darlledu ers rhai misoedd bellach https://amam.cymru/yr-hen-iaith

Mae'r gyfres yn gyflwyniad hwyliog i hanes llenyddiaeth Gymraeg, gyda'r ysgolhaig o Brifysgol Bangor, Jerry Hunter, hogyn o'r Midwest yn America yn dysgu'r Athro Richard Wyn Jones o Brifysgol Caerdydd, hogyn o ganolbarth Sir Fôn, am drysorau'i iaith ei hun.

Mae cyfres o bodlediadau diddorol fel hyn yn ffordd effeithiol o annog pobl i ddefnyddio technoleg gan danio'r dychymyg ac mae cyfres Yr Hen Iaith yn bendant am ddenu pobl o bob oed i wybod mwy am gyfoeth ein llenyddiaeth, gyda'r wybodaeth honno wedi'i chyflwyno trwy drafodaeth ysgafn, doniol, addysgiadol a difyr tu hwnt. Mae'n wych gweld y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei ddefnyddio i ddadansoddi ein llenyddiaeth hynaf.

Y mae'r stori yn dechrau yn y dechreuad gyda'r Gododdin. Yn y bennod gyntaf trafodir gerdd (neu'r casgliad o gerddi cysylltiedig) a briodolir i'r bardd Aneirin, gan archwilio dadleuon sy'n cefnogi – ac sy'n herio – y gred gyffredin mai'r farddoniaeth hon yw'r testun llenyddol Cymraeg cynharach sydd wedi goroesi. Yn yr ail bennod, maent yn trafod y llawysgrif cynharaf yn y Gymraeg – Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Taliesin.

Mae'r drafodaeth yn symud i chwedlau'r Mabinogi – yn gyntaf, pedair ceinc y Mabinogi, sef Chwedl Branwen, Manawydan Pwyll Pendefig Dyfed, Math fab Mathonwy, pwy ysgrifennodd hwy? ac ym mha gyd-destun y mae'r straeon hyn yn gorwedd yn hanesyddol ac yn gymdeithasol. Ceir cyflwyniad cyflawn gan Jerry Hunter i'r straeon a'u prif gymeiriadau fel y cawr Bendigeidfran. Yn ddiddorol, mae Jerry yn tynnu sylw at bwysigrwydd y môr Celtaidd o fewn y chwedlau hyn fel y canolbwynt i bob dim cyn dyfodiad y Rhufeiniaid a'r Anglo-Sacsoniaid a phan oedd y Celtaidd yn tra-arglwyddiaethu ar Ynys Prydain.

Cwestiwn sydd hefyd yn cael ei ofyn yw 'Wyt ti'n cofio Macsen?' ffigwr sydd wedi cael ei anfarwoli yng nghân adnabyddus Dafydd Iwan – Yma o Hyd. Y mae Macsen yn rhan ganolog o stori Breuddwyd Macsen sydd wedi'i seilio yn 'hanesyddol' ar Ymerawdwr Rhufeinig, Magnus Maximus, neu dad y Genedl Gymreig, yn ôl Gwynfor Evans, sy'n cael ei ddenu i Gaernarfon gan dywysoges brydferth o'r new Helen neu Elen. Wedyn mewn penodau eraill ant ymlaen i drafod Beirdd y Tywysogion, ac yn yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, y bardd mwyaf adnabyddus – Dafydd ap Gwilym. Mae yna dros 24 o benodau hyd yma, digon i'ch cadw i fynd am ddyddiau! Mae flogiau a podlediadau fel hyn yn bwysig tu hwnt i'n difyru a'n haddysgu ac yn hybu iechyd a llesiant ac mae llawer mwy ar YPod (https://ypod.cymru/) trwy'r Gymraeg, ac fe fyddwn yn trafod rhai o'r rhain y tro nesaf.

Os hoffech wybod rhagor am unrhyw agwedd o'r byd digidol, neu'n chwilio am hyfforddiant neu gymorth ar ddatrys problem ddigidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

# YSGOL BODFEURIG



**Gŵyl Rygbi Dyffryn Ogwen**
Diolch o galon i bawb fu'n rhan o drefnu a chynnal Gŵyl Rygbi Cwpan y Byd ym Methesda. Roedd yn brofiad arbennig i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 fod yn rhan o ŵyl fel hon. Cafodd pawb ddiwrnod gwych yn dysgu ac ymarfer eu sgiliau ac yn dod i adnabod o ysgolion eraill.

**Meddwl am eraill**
A hithau'n gyfnod diolchgarwch, braf oedd gweld plant a theuluoedd yr ysgol yn meddwl am eraill wrth iddynt gasglu llawer o fwyd ar gyfer Banc Bwyd Dyffryn Ogwen. Mae'r ysgol eisoes wedi elwa yn fawr o'u perthynas gyda Partneriaeth Ogwen trwy gael llawer o brofiadau gwahanol, braf felly oedd cael rhoi yn ôl. Llwyddwyd i gasglu llawer o fwyd fydd yn mynd i helpu pobol sy'n byw yn ein cymdeithas. Dyma'r Cyngor Ysgol yn barod i gario'r bwyd i un o gerbydau trydan Partneriaeth Ogwen!



**Shwmai Su'mai**
Yma yn Ysgol Bodfeurig rydym bob tro yn edrych allan am ffyrdd o hybu'r Gymraeg ymysg y plant ac ymhlith ein rhieni. Cyfle gwych felly oedd cael dathlu diwrnod Shwmai Su'mai. Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo mewn coch, gwyn a gwyrdd cyn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol yn ystod y dydd i hybu'r Gymraeg. Roedd hefyd yn braf iawn clywed rhai o'n rhieni yn defnyddio'r Gymraeg i gyfarch wrth ddanfon eu plant i'r ysgol – da iawn chi a daliwch ati i ddechrau sgwrs yn y Gymraeg!

**Cystadleuaeth Calan Gaeaf**
Mae bellach yn draddodiad yn yr ysgol adeg Calan Gaeaf i gynnal cystadleuaeth cerfio pwmpen. Mae'n ddiwrnod cyffrous wrth i lawer ddewis dod i'r ysgol mewn gwisg ffansi gydau'n pwmpeni. Cafwyd nifer fawr o blant yn cystadlu ac roedd hyn yn ei dro yn helpu i gasglu arian i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Llongyfarchiadau mawr i'r rhai buddugol.




**CHRIS GRIFFITHS CYF**
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
**A.G.L.**
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

**L. Sturrs a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

# YSGOL LLANLLECHID

**Cydymdeimlo**
Gyda chalon drom, yr ysgrifennwn am farwolaeth Delyth Hartleb, mam Lucas a Kyle. Ar ran pawb yn Ysgol Llanllechid anfonwn ein cofion cynhesaf at y teulu a ffrindiau'r teulu yn eu colled aruthrol.

**Cyflwyniadau Diolchgarwch**
Llawer o ddiolch i'n rhieni a chyfeillion yr ysgol am ddod i gefnogi'r plant yn ystod ein cyflwyniadau Diolchgarwch yn neuadd yr ysgol. Bu pob un dosbarth yn cymryd rhan,- o flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 6 a phawb ar eu gorau. Cafwyd amrywiaeth eang, ynghŷd â hanes John Petts, arlunydd enwog, a dreuliodd ychydig o'i fywyd yn byw yn Rachub. Yn 1963, dyluniodd Petts ffenest liw, ac arni Grist croenddu. Cafodd y ffenest ei gosod mewn eglwys yn Birmingham. Alabama, yn dilyn digwyddiad erchyll pan gafodd pedair merch ifanc groenddu eu lladd o ganlyniad i derfysgaeth a hiliaeth. Roedd John Petts yn teimlo i'r byw, a phan glywodd hyn, aeth ati i greu'r ffenest hardd, ac arni mae'r geiriau "from the people of Wales".

Cafwyd perfformiadau gwerth chweil gan y plant i gyd, ac yn coroni'r cyfan, cawsom ymweliad gan yr amryddawn Tammy Jones! Dyna wefr oedd cael croesawu Tammy Jones i'r ysgol! Roedd ein côr wrth eu boddau yn cyd-ganu gyda'r gantores fyd-enwog, ac 'roedd y ffaith fod Tammy Jones yn gallu chwarae'r llwyau yn rhyfeddu pawb! Diolch yn fawr!

**Ffair Nadolig**
Croeso cynnes i bawb i Ffair Nadolig Ysgol LLanllechid sy'n cael ei chynnal ar Rhagfyr 1af yn neuadd yr ysgol.

**Ysgol Dyffryn Ogwen**
Cafodd y plant hynaf groeso twymgalon yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Diolch i bawb.

**Bore Agored y Gymraeg**
Llongyfarchiadau i bawb ar yr holl waith! Daliwch ati i deimlo'r Gymraeg yn eich calonnau!



**Taith Gerdded –** Cafodd Blwyddyn 5 fodd i fyw yn cerdded o Abergwyngregyn yn ôl i Rachub ar ddiwrnod hydrefol, braf. Diolch i fam Miss Elin, am y diod a'r danteithion yng nghaffi'r Hen Felin, Abergwyngregyn. Diolch hefyd i Mr Stephen Glyn Jones am arwain y daith.



**Gardd Ysgol Llanllechid –** Cafwyd cynhaeaf a hanner eleni. Penderfynodd y Cyngor Ysgol werthu rhai o'r ffrwythau a'r llysiau i rieni, ynghyd â chynnal sesiynau coginio yn yr ysgol. Diolch i Mistar Meic am ei arweiniad!


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106*
*Porthaethwy (01248) 719517*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000)*


**Eglwys Glanogwen**
Bu disgyblion dosbarthiadau Mrs Rona Williams, Miss Elin Beardsmore a Mrs Nerys Tegid yn ymweld â llyn Cororion, ac yn dysgu am y chwedl. O ganlyniad, penderfynwyd cynnal priodas y tylwyth teg yn Eglwys Glanogwen. Diolch o galon i'r Parchedig Sara Roberts, Caplan Bro, am y croeso a'r cymorth. Cafwyd gwledd- i'r glust a'r llygad, a phawb wrth eu boddau yn chwarae eu rhan! Wedi dychwelyd i'r ysgol, cafwyd brecwast priodas gwerth chweil gan Mr Gavin a chriw y gegin, a daeth y diwrnod i ben gyda dawnsio bywiog yn y disgo lle roedd pawb yn canu 'Rhedeg i Baris..!'. Diolch i Mrs Sioned Thomas am y balwniau a diolch i Mrs Siân Thomas am ei help yn trefnu'r blodau, heb anghofio Mrs Lois Nottingham am ei help yn coginio'r gacen!



# YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Noson Agored**
Cynhaliwyd Noson Agored hynod o lwyddiannus nos Fawrth, 2il o Hydref, i rieni disgyblion ym mlynyddoedd 5 a 6. Yr oedd yn braf iawn gweld yr ysgol yn llawn o ddarpar rieni a disgyblion, dros 250 i gyd, o ysgolion Bodfeurig, Llanllechid, Penybryn, Rhiwlas, Tregarth a Llandygai. Yr oedd canmoliaeth arbennig i'r ysgol gan y rhieni a fu'n bresennol a gobeithir yn fawr y bydd pob disgybl sy'n byw yn y dalgylch yn dod i Ysgol Dyffryn Ogwen. Diolch i'r holl staff a disgyblion am drefnu a chefnogi'r holl weithgareddau ar y noson.

**Rhyd Ddu**
Bu blwyddyn 7 yn ffodus i aros yn Rhyd Ddu yn ddiweddar ble cawsant y cyfle i gerdded Yr Aran, a hynny mewn tywydd hynod ffafriol ar y cyfan, cyn mynd ar daith gerdded o Rhyd Ddu i Feddgelert. Dangosodd pob un ohonynt ddyfalbarhad a gwydnwch aruthrol. Treuliodd y disgyblion eu hamser yn cydweithio a datrys problemau er mwyn dod i adnabod ei gilydd yn well. Diolch yn arbennig i fyfyrwyr blwyddyn 12 a ddaeth i gefnogi, diddanu a chyd-weithio gyda blwyddyn 7 ar y daith.

**Gweithdy Technocamps**
Ar ddydd Llun 23ain o Hydref bu gweithdy ymarfer ar gyfer cystadleuaeth Merched #CyberFirst gyda Alex Clewett, Technocaps.

**Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth**
Roedd yn ddiwrnod gwisgo coch i godi ymwybyddiaeth am hiliaeth yn ystod mis Hydref. Dyma rai lluniau o flwyddyn 7 yn dangos y cerdyn coch.

**Adran Addysg Gorfforol**
Enillodd tîm pêl droed bechgyn dan 14 o 6-2 yn erbyn Ysgol John Bright yng nghwpan Cymru, perfformiad arbennig gan bawb! Gruff Beech yn sgorio 4 gôl, a gôl yr un i Gwilym Vieira a Mabon Stammers.

Perfformiad gwych gan dîm bechgyn dan 13 mewn gêm gyfeillgar yn erbyn Ysgol Tryfan prynhawn ma. Braf gweld nifer o ddisgyblion yn cynrychioli @DyffrynOgwen am y tro cyntaf. Bobbie, Elgan, Charlie, Callum, Eban. Diolch i Gruff a Tomi am reoli'r tîm.




**Dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur**
6 a 7 Rhagfyr am 7 o'r gloch: Ysgol Dyffryn Ogwen yn cyflwyno "Olifar". Tocynnau: Oedolion £8; Plant Ysgolion Uwchradd £5; Plant Ysgolion Cynradd £3; dan 3 - am ddim.

Dydd Iau, 14 Rhagfyr, 2.00 – 3.00yp: Te Prynhawn yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen. Cysylltwch i gadw eich lle.
Ffôn: 01248 600291. E-bost – swyddfa@dyffryn ogwen. ysgoliongwynedd.cymru









# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

---

**Gwasanaeth angladd Magwen**

Daeth tyrfa fawr i ddathlu bywyd Magwen Davis, gynt o Dob, Tregarth, yng Nghapel Hebron, Hen Golwyn ar Hydref 9. Bu Magwen farw adref yn ei chartref ar Fedi 18 wedi gwaeledd byr a hithau ond yn 51 oed.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Helen Wyn Jones a'r organydd oedd Dafydd Lloyd Jones.

Talwyd teyrnged annwyl a phwrpasol gan ei hewythr, Arwyn Oliver, Bethesda a theyrngedau'n dilyn gan dair o'i ffrindiau sef Catrin, Elin a Manon. Cydymdeimlwn gyda'i phriod Stephen, ei mam Maud, ei chwaer Ceri a'r holl deulu ar adeg mor drist iddyn nhw fel teulu. Dyma englyn o waith Ieuan Wyn er cof am Magwen. Bu Ieuan yn athro arni yn Ysgol Gynradd Tregarth.

**Cofio Magwen**

Ei hwyl fu'n gloywi'i helfen, yn annwyl
Tywynnai fel heulwen;
Ble bynnag yr oedd Magwen
Roedd anwes gynnes ei gwên.
*Ieuan Wyn*

**Cofio Meirion**

Ar ddiwedd mis Medi daeth y newyddion trist o Tewksbury yn Lloegr, am farwolaeth Meirion Parry, brodor o Dregarth.

Roedd Meirion yn fab i Mary Parry ac yn byw yn Menai View, Braichtalog. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen cyn ymadael i gael gyrfa lwyddiannus yn yr R.A.F. Wedi ymddeol aeth ymlaen i fod yn beilot gyda chwmni "Laker" a "British Airways".

Roedd Meirion yn 84 mlwydd oed, a chollodd ei wraig bum mlynedd yn ôl. Cydymdeimlwn â'i fab a'i ferch yn eu profedigaeth.

**Llais ar Radio Cymru**

Bore Mercher, Hydref 11, ar raglen Sian Cothi , bu cyfweliad rhwng Gwenno Roberts, Fferm Dob a Sian Cothi. Bu Gwenno a'i mam yn Fflandrys, Ffrainc drwy wahoddiad Côr Goronwy o ardal Benllech, Ynys Môn.

Mae Gwenno yn delynores brofiadol ac yn ddisgybl yn Ysgol Tryfan, Bangor, ac wedi bod yn canu'r delyn dan hyfforddiant Alwena Roberts ers iddi fod yn wyth oed. Cafodd gyfeilio i'r côr ar y daith yn ogystal a chyfeilio mewn un o Eglwysi hardd Ypres. Llongyfarchiadau mawr i ti Gwenno, rydym oll yn falch iawn o dy lwyddiant.

Tra bod Gwenno a Sioned ei mham yn Fflandrys roedd ei thad Nigel a'i brawd Iestyn mewn rhan arall o Ffrainc yn dilyn tim Cymru. Pawb at beth y bo !

**Gwaeledd**

Anfonwn ein cofion fel ardal at Brenda Wyn Jones, Cae Derwen, Tregarth sy'n wael ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Mae Brenda wedi cartrefu ers rhai misoedd yng Nghartref Gofal y Garnedd yn Llanfairpwll. Pob dymuniad da i Brenda am wellhad buan. Nid yw Helena Hughes, Pen y Bronnydd wedi bod yn dda yn ddiweddar ac mae hithau wedi cael cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Cofion atoch chithau Helena am wellhad llwyr. Deallwn ei bod wedi symud yn ddiweddar i fyw yn Cae Garnedd, Penrhosgarnedd.

**Babi Newydd**

Croeso mawr i'r byd i Osian Llŷr Medway, plentyn cyntaf Ceri a Gerwyn Medway, Ffordd Tanrhiw. Llongyfarchiadau mawr hefyd i nain a taid Bethesda, sef Susan a Phil, a nain a taid Bangor, Shân a Mark.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**

Edrychwn ymlaen at gyfarfod Mis Tachwedd o'r gangen pan gawn noson dan y teitl 'Y Daith Sidan '. Mae'n argoeli i fod yn noson ddiddorol iawn. I gystadlu am gwpan Perthi gofynnir i bawb ddod ag unrhyw beth wedi'i wneud o sidan.
Yn dilyn y daith bws a'r te pnawn ardderchog yn Pant Du ar ddiwedd Medi rhaid llongyfarch yr aelodau ddaeth i'r brig yng Nghystadleuaeth Cwpan Perthi, sef creu addurn bwrdd. Diolch i'r rhai gymerodd ran. Daeth Carol Jones yn 3ydd gyda'r fowlen jam, Ann Cook yn 2il gyda'r plat blodeuog a Margaret Jones yn fuddugol gyda'i photyn bach o flodau gwyllt. Llongyfarchiadau i'r dair.

**Capel Shiloh Newydd, Tregarth**

Mae pob oedfa am 5 o'r gloch yn Shiloh oni nodir yn wahanol.
Tachwedd 19 – Ellie Jones, Coed y Parc
Tachwedd 26 – Olaf Davies, Llandegfan
Rhagfyr 3 – Nerys Griffiths, Caernarfon
Rhagfyr 10 – Ffion Rowlinson, Bethesda
Rhagfyr 17 – Gwasanaeth teulu trefniant lleol
Rhagfyr 24 – Gwasanaeth Cymun Noswyl y Nadolig, Dr Ian Morris am 6 o'r gloch
Rhagfyr 31 – Geraint Roberts, Llandegfan
Drws Agored.

Ydi, mae'r drws yn agored yn Festri Shiloh, bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch, Paned, sgwrs a chwmni cynnes i bawb.

Mae aelodau Shiloh ar hyn o bryd yn casglu anrhegion ar gyfer Apel Nadolig Gweithredu Dros Blant. Mae Gweithredu Dros Blant yn rhedeg sawl prosiect ac ar adeg y Nadolig mae'n gyfle i roi anrheg i'r plant/pobl ifanc. Dyma enghraifft o bethau y gellir eu rhoi Gemau Bwrdd, Jigsos-pob oedran, Llyfrau a deunydd lliwio, Llyfrau, 'Selection bocsus', Nwyddau molchi, Cardiau Rhodd - £5.
Os hoffech chi gyfrannu cysylltwch gyda Gwenda ar 01248 716767 neu ddod a nhw i'r Oedfa neu i Drws Agored ar fore Gwener. Diolch o galon !

**Diolch**

Dymuna Janet, Adrian Gareth, Lynette a theulu'r diweddar Margaret Pritchard ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt gan bawb ,ac am rannu atgofion melys a hwyliog gyda hwy. Diolch hefyd am y rhoddion gyda chyfanswm o £825 a gasglwyd er cof am Margaret tuag at yr elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch o galon i bawb.

---

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Beiciwr o Fri

Dyma lun o Deian Roberts, Caban Coch, Dob, Tregarth sy'n 14 oed. Eleni 2023 oedd blwyddyn gyntaf llawn Deian yn cystadlu mewn rasio beic ar lefel genedlaethol y Deyrnas Unedig. Cynhaliwyd rasus ym Mhenbre, trac rasio ceir Oulton Park, Loughborough, Scarborough, Bradford, Lancaster, râs 3 diwrnod ar Ynys Manaw a râs 2 ddiwrnod yn Llundain. Bu'n fuddugol mewn un râs, cael ambell i bodium a gorffen y gyfres yn y 10 uchaf drwy'r DU, er methu ambell i râs trwy anaf ddiwedd y tymor. Fo hefyd enillodd cyfres y North West Youth League – Gogledd Orllewin Lloegr, gan ennill 6 râs allan o 6 i gipio'r gyfres. Cynhaliwyd y rasus hyn yn ardal Lerpwl, Manceinion, Caerliwelydd (Carlisle) a Chaerlyr (Leicester). Ym mis Mehefin roedd pencampwriaeth rasio circuit Cymru yn Y Rhyl a daeth Deian yn fuddugol a chipio'r teitl Pencampwr Cymru dan 14 oed, 2023. Dros y tymor rasio beics ffordd/ circuit mae wedi ennill 13 allan o 30 o rasus y bu'n cystadlu ynddynt.

Mae Deian hefyd newydd ddechrau rasio trac Velodrome sydd angen beic gwahano,l un efo gêr 'fixed' a dim brêc! Mae wedi gwneud ychydig o rasio ym Manceinion, ac yn ddiweddar bu'n cystadlu ym Mhencampwriweth Velodrome Cymru yng Nghasnewydd – cystadleuaeth Omnium oedd hon a daeth Deian yn fuddugol mewn un râs a gorffen yn 5ed dros y cwbl.

Mae rwan yn edrych ymlaen i wneud mwy yn y maes yma gan rasio dros y gaeaf a'r flwyddyn nesaf. Cafodd wybod ei fod wedi cael ei ddewis i fod yn rhan o Academi Ieuenctid Beicio Cymru ar gyfer 2023/24. Byddant yn darparu hyfforddiant unigol a grwp, cynnal gwersylloedd hyfforddi yn Ne Cymru a chael cit Cymru.

Llongyfarchiadau mawr i Deian ac rydym fel darllenwyr y Llais yn falch iawn o'i gamp ac yn dymuno'n dda iawn iddo am bob llwyddiant a mwynhad i'r dyfodol ar gefn y beic.




# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Pytiau ar y cyfan sydd gennyf y mis yma gobeithio y cewch chi flas.

**Pancan**. Roedd criw yn sgwrsio yn Y Siôr noson o'r blaen a dyma un yn dweud "Ges ti bancan felly!" Nid pawb oedd yn deall ystyr y gair pancan, felly dyma egluro mai 'syrthio' neu 'ddisgyn' a olygai ac ychwanegodd un o'r criw "Un i Iaith Pesda" ac felly dyma ni. Arferwn ni ddefnyddio'r gair 'pancan' yn aml iawn ers talwm. 'Codwm' yw gair arall a ddefnyddiwyd, yn air a welwn yn y geiriadur, ond tybiaf mai ar lafar yn llwyr y defnyddiwn i 'pancan'. Tybed oes mwy o eiriau am yr anffawd yma.

**Colli Effaith**. Pe byddwn yn anghofio rhoi caead ar ben unrhyw beth yna dywedai mam y byddai yn 'colli effaith' ac felly yn mynd yn wastraff ac yn dda i ddim. Rwyf yn bersonol wrth fy modd gyda'r dywediad bach yma ac yn ei ddefnyddio yn aml. 'Sgwn i oes rhywn arall!

**Celwydd**. 'Celwydd noeth' a 'celwydd gola' gyda'r ddau ansoddair yn pwysleisio ei fod yn gelwydd a dim arall. Mae'r gair 'celwyddau' yn 'clwydda' ar lafar ac mae'r geiriau 'Ti'n deud clwydda." yn gyhuddiad cryf, fel mae defnyddio'r gair 'anwiredd', nad oes cymaint o ddefnydd arno bellach, sef rhywbeth nad yw yn wir. Cawn hefyd "Paid a malu awyr" a "Paid a malu cachu" Clywais eglurhad mai ffordd barchus o ddweud yr ail ymadrodd gan ychwanegu "efo rhaw" ydyw "Paid a'i palu nhw" Tybed!

**Giamocs**. 'Gwneud giamocs' beth mae'n ei olygu i chi? Chwarae'n wirion a gwneud rhywbeth allai beri niwed ichi. Efallai y gall olygu ystumio eich corff i wahanol siapiau. Buaswn wrth fy modd clywed beth yn union mae'n ei olygu i chi. O ble daeth y gair giamoc? Cysylltwch os gwelwch yn dda.

**Talfyrru geiriau**. Byddwn yn torri rhai geiriau'r fyrrach ar lafar drwy adael rhannau ohonyn nhw allan, sef eu talfyrru. Dyma i chi rai diddorol:

**Twmo**. O 'twymo', sef 'cynhesu'. "Gad imi gael twmo'n 'nwylo o flaen y tân 'na."

**Sglyf**. Daw'r gair hwn o 'ysgyflaethus' ac roedd y dywediad "Mae o rêl sglyf" / "Mae o rêl sglyfath") yn disgrifio dyn yn ymddwyn yn amhriodol tuag at ferched.

**Twnnu**. O 'tywynnu'. "Mae'r haul yn twnnu ŵan."

**Stachu**. Daw hwn o 'bustachu', ac mae o'n golygu gwneud ymdrech fawr a thrafferthus i wneud rhywbeth, er enghraifft "Roedd o'n stachu i godi'r pren trwm."

**Twllu**. O 'tywyllu' sy'n golygu gwneud rhywbeth yn dywyll neu fod rhywbeth yn mynd yn dywyll: "Mae hi'n twllu'n gynnar rŵan." Mae 'na ystyr arall iddo, sef 'ymweld â rhywle'. Mi ddwedwn ni "Dydi o ddim wedi twllu'r lle 'ma ers blynyddoedd."

**Noeth lym**. Y ffurfiau llawn ydi 'noeth lymun' a 'noeth lymun groen', hynny ydi bod heb ddillad - 'heb 'run cerpyn'.

**Twchu**. O 'tewychu', hynny ydi mynd yn dewach. "Mae o 'di twchu'n arw ers pan welis i o ddwaetha."

**Pill**. 'Pennill' ydi'r gair llawn. "Mi sgwennodd o bill i mi ar fy mhen blwydd."

**Rhwmo**. 'Rhwymo' ydi hwn. Mae'n medru golygu 'clymu', O ran gweithgarwch y corff, mae'n golygu 'methu cael eich gweithio'. Pan fo rhywun wedi rhwymo'n ddifrifol, y dywediad ydi 'wedi rhwmo'n gorcyn.'

**Puro**. O 'papuro' y daw hwn – "Mae bryd inni buro'r stafall 'ma."

**Pura**. 'Papurau' – "Mi fydd y stori ar draws tudalenna blaen y pura i gyd fory!" "Mae isio i rywun fynd drwy'i bura fo rhag ofn bod isio cadw rhai ohonyn nhw."

Cofiwch os oes gennych chi unrhyw gyfraniad dyma sut i gysylltu. Mary Jones 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN ffôn 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

**Ymgyrch Macmillan**
Cafwyd brynhawn llwyddiannus yn Nhŷ'r Eglwys ar Hydref 21ain. Daeth nifer dda iawn o drigolion yr ardal i fwynhau danteithion a sgwrs. Hyd yma, mae £330 wedi ei gasglu tuag at yr achos haeddiannol yma. Diolch i bawb fu'n brysur yn trefnu ac yn paratoi'r lluniaeth

**Dymuno'n dda**
Dymunwn wellhad buan i Evelyn, Tan y Foel sydd wedi treulio ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Canu Carolau**
Mae trefniadau ar y gweill i gynnal noson o ganu carolau eto'r flwyddyn yma. Mae'r digwyddiad yma bellach yn rhan bwysig o ddathliadau'r ŵyl. Cadwch lygad ar y cyfryngau cymdeithasol am ddyddiad a lleoliad.

**Ffenestri'r Adfent**
A fyddech cystal â chysylltu gyda Linda a/neu Caroline os am gymryd rhan eto eleni.

# Carneddi

**Croeso**
Croeso i Andrew a Ceri Roberts a'u plant i'r Carneddi. Maen nhw wedi dod i fyw i Bryn Awel, 89 Ffordd Carneddi. Dymunwn yn dda iddyn nhw fel teulu.

**Yr Hen Siop Sheffield**
Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cwynion, gan gynnwys deiseb, gan drigolion Ffordd Carneddi am gyflwr adeilad yr hen Siop Sheffield.

Mae'n ddolur llygad ers sawl blwyddyn bellach, a dim yn cael ei wneud yn ei gylch. Gobeithiwn yn fawr y bydd ymateb cadarnhaol o ganlyniad i'r cwynion.

**Ffordd beryglus**
Mae cais wedi ei gyflwyno i'r cyngor sir osod twmpathau ar y rhan o Ffordd Carneddi sydd rhwng yr hen Siop Sheffield a'r hen Siop Foster. Mae nifer fawr o blant oed cynradd yn byw yn y rhan hon erbyn hyn, a hefyd mae plant Ysgol Penybryn yn dod i fyny'r llwybr bach i'r ffordd ar adeg brysur o'r dydd. Edrychwn ymlaen i gael ymateb cadarnhaol gan y cyngor sir er mwyn gwneud y ffordd yn fwy diogel.

## Eglwys Sant Cedol, Pentir

**Bedydd**: Ar fore dydd Sul 3ydd Medi bedyddiwyd Ania merch fach Kim a Dylan a chwaer fach Ela a Jâc, Gwasanaethwyd gan Y Parchedig Dr Carol Roberts sef hen fodryb i Ania. Braf oedd gweld cynifer yn y gwasanaeth yn dystion fod Ania yn cael ei derbyn yn aelod o Eglwys Crist.

**Geni**: Ganwyd mab bach sef Taran a'r Medi 11eg i Anya a Terry, Caernarfon. Mae Taran yn frawd bach i Dion a Macsen. Llongyfarchiadau i chi fel teulu.

**Cyngerdd**: Nos Sul Hydref 8fed cynhaliwyd cyngerdd yn yr eglwys gyda Chôr Seiriol dan arweiniad Gwenant Pyrs a'r unawdydd Leisa Mair, a daeth cynulleidfa dda i wrando ar y wledd gerddorol. Roedd y côr a'r unawdydd ifanc dawnus yn wych a llwyddwyd i godi calonnau'r gynulleidfa. Cyflwynwyd amrywiaeth o gerddoriaeth a'r cyfan mewn ffordd braf a chartrefol gan Cefin Roberts.

Hoffem ddiolch i Bwyllgor Parchu Pentir, Cefin a Rhian Roberts am drefnu'r noson a'r lluniaeth ar y diwedd. Hefyd, i Gôr Seiriol a Leisa Mair am roi o'u hamser. Bydd yr elw ar y noson yn mynd tuag at gronfa atgyweirio Eglwys Sant Cedol. Diolch o galon i chi gyd.

**Y Cynhaeaf**: Ar fore Sul Hydref 1af cynhaliwyd ein gwasanaeth diolchgarwch i ddathlu'r cynhaeaf dan arweiniad y Parchedig Ddr. Gareth Lloyd. Daeth y gynulleidfa ag amrywiaeth o ddanteithion a ddosbarthwyd i Fanc Bwyd y Gadeirlan a oedd yn ddiolchgar dros ben am y rhoddion.

**Te Bach**: Brynhawn Mercher Hydref 4ydd cynhaliwyd ein Te Bach misol. Roedd yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r gloch y prynhawn. Bydd y Te Bach nesaf ar Ragfyr 6ed. Mae croeso cynnes i chwi ymuno gyda ni am brynhawn hwyliog gyda phaned, teisen a sgwrs.

**Hamper Misol**: Rydym yn cynnal Raffl Hamper Misol ar themâu gwahanol pob mis er mwyn codi arian i gynnal yr eglwys. Enillydd hamper mis Awst oedd Jimmy Frith a'r hamper yn rhoddedig gan Alison Ellis ac fe aeth yr ail wobr, potel wîn i Nia Roberts. Enillydd hamper mis Medi oedd Mair Roberts, yr hamper yn rhoddedig gan Nesta Barton, aeth yr ail wobr, potel wîn i Dawn Williams. Enillydd hamper mis Hydref oedd Mair Roberts, yr hamper yn rhoddedig gan Eirwen a Nia, aeth yr ail wobr, sef bylbiau gardd i Sharon Griffith.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a'r teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl. Hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhoddion o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Bore Coffi**: Bore Sadwrn Medi 23ain cynhaliwyd bore coffi yng Nghanolfan Glasinfryn. Roedd stondinau cynnyrch cartref a thombola gyda raffl. Roedd yn fore llwyddiannus a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Ffair Nadolig**: Bydd yr eglwys yn cynnal Ffair Nadolig eleni ar Dachwedd 25ain am 2 y prynhawn yng Nghanolfan Glasinfryn. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ynghyd â stondinau amrywiol. Hon fydd ein Ffair Nadolig gyntaf ers 2019. Mae croeso cynnes i chwi ymuno gyda ni am brynhawn o siopa Nadolig.

**Gwasanaethau**: Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30 ac mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni ac yn y baned a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**: Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys, cysylltwch gyda'r Parchedig Ddr. Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu am sgwrs.

**Apel at Deuluoedd, Ffrindiau a Thrigolion yr Ardaloedd Cyfagos**
'Rydym yn gofyn yn garedig am gymorth, sef rhoddion er mwyn cynnal a chadw Mynwent Eglwys St. Cedol, Pentir.
Fel y gwyddoch yn sicr, fel y rhan fwyaf o'n heglwysi, mae gennym gynulleidfa sydd yn lleihau o hyd. Mae hyn, ynghyd â chostau cynnal a chadw eraill sydd wedi codi'n aruthrol, yn golygu na allwn ofalu am y gwaith fel dylem.

Fel y gwyddoch, mae llawer o deuluoedd yn nalgylch Papur Bro Llais Ogwan wedi eu rhoi i orffwys yn y fynwent hynafol hon.

A fyddech cystal ag ystyried gwneud cyfraniad, byddai unrhyw swm yn cael ei werthfawrogi, i'n galluogi i wneud y gwaith sydd ei angen yn yr hen fynwent, fel yr ydym wedi ei wneud yn y gorffennol, i anrhydeddu eich teulu a'ch ffrindiau.

Gallwch gyfrannu trwy anfon siec yn daladwy i "ST. CEDOL PENTIR CHURCHYARD ACCOUNT" i Nia Roberts (Warden yr Eglwys), 4 Hafod Lon, Rhiwlas, Bangor, LL57 4GD. Diolch am eich cefnogaeth.

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

RHAN 13

**8 OGWEN TERRACE, BETHESDA**


**Thomas Parry,** gŵr gweddw oedd yn byw yn 8 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1871. Fe'i ganwyd ym mhlwyf Llanllechid yn 1819. Roedd ei ferch a mab yno hefyd, yn ogystal â nifer o bobl eraill. Hannah oedd enw'r ferch ac roedd hi'n 19 oed. 13 oed oedd John Henry, y mab, ac yn mynychu'r ysgol. Cawn ddyn o'r enw John Jenkins yn lletywr yno, curad yn Eglwys Crist, Glanogwen ac wedi ei eni yn Llanfihangel-y-Creuddyn yn 1837. Roedd teulu arall yn byw yn y tŷ hefyd, William R. Jones, llyfrwerthwr a phregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ei wraig Mary, yn 27 oed, a dwy o enethod bach, sef Jane Alice yn 2 oed, a Margaret G. yn saith mis oed. Roedd yno forwyn o'r enw Kate Hughes, yn 17 oed, a chwaer William R. Jones, sef Ellen Alice Jones, yn 33 oed, a oedd yn athrawes. Roeddynt i gyd wedi eu geni yn Llanllechid.

Cawn un adroddiad yn enwi Thomas Parry yn y newyddiaduron, dyddiedig Ionawr 9, 1875, lle mae tua cant o aelodau corau Glanogwen a Gerlan yn cael eu cinio blynyddol yn ystafelloedd yr ysgoldy, ac mae diolchiadau i nifer o bobl am wasanaethu ar y côr, ac yn eu mysg roedd Thomas Parry.

Yn rhestr bedyddiadau Eglwys Crist, Glanogwen am y flwyddyn 1874 cawn gofnod bod Catherine Jane Grey Roberts wedi ei bedyddio ar y 4ydd o Rhagfyr 1874, rhif 8 Ogwen Terrace, Bethesda. Enwau'r rhieni oedd John a Hannah. Groser oedd bywoliaeth John.

Erbyn cyfrifiad 1881 mae Thomas wedi symud o rif 8 Ogwen Terrace i rif 7, Ogwen Terrace, ac yn nodi mai lletywr ydoedd. Bu farw yn 64 oed ar Ionawr 19eg, 1884.

**Emily Shepheard** o Eaton, Cheshire, a'i theulu sydd yn byw yn rhif 8 yn y flwyddyn 1881. Roedd Emily yn weddw ac wedi ei geni yn 1840. Cynnal storfa ffansi oedd hi, ac roedd ei phlant, ei chwaer a dau letywr yn byw yn y tŷ gyda hi. Fodd bynnag, mae rhywbeth od am y teulu yma, oherwydd nid wyf wedi darganfod dim o'u hanes cyn y dyddiad yma (1881) nac ar ôl



dyddiad y cyfrifiad.

Dyma breswylwyr y tŷ ar noson y cyfrifiad, ac maent yn nodi eu man geni. Emily Shepheard, 1840, wedi ei geni yn Eaton, Cheshire; Emma Shepheard, merch, 1861, Staffordshire; Mary J. merch, 1870, Bethesda; Annie May, merch, 1872, Everton; George Henry, mab, 1874, Bethesda; roedd y tri yma yn mynychu'r ysgol. Eliza Ford, sef chwaer Emily wedi ei geni yn Eaton yn 1852, ac yn nodi mai morwyn ydoedd. Y ddau letywr oedd Edward Richard Jenkin, curad, wedi ei eni yn Llanbadarnfawr, a Henry Roberts (g. 1857) yn gyfrifydd banc, wedi ei eni yn Llandygái.

Roedd y teulu wedi ymadael â Bethesda erbyn y flwyddyn 1887, oherwydd cawn adroddiad yn y *North Wales Express*, Medi 16, 1887, '*The Bethesda Co-operative and Industrial Society.- Mr Jones made an application to wind up the Bethesda Co-operative and Industrial Society which had become insolvent and was unable to pay its debts, and to appoint **Mr D. G. Davies, 8, Ogwen-terrace, Bethesda,** as official liquidator. On the 19th of last month, an application was made to appoint a provisional liquidator, which fact was inserted in the London Gazette, and the sharholders now desired to wind up the concern. At a meeting of the shareholders, Mr Davies had been appointed liquidator without any Security whatever.- His Honour: I make it a rule that in all such cases in order to avoid any disagreeable reflection upon anybody, a Security of some kind should be appointed.- Mr Jones said that the stock-in-trade amounted to about £190, and his Honour granted the application subject to a Security to the extent of £200 being appointed.*'

Yn *Y Genedl Gymreig* dyddiedig Rhagfyr 18, 1889, cawn yr adroddiad o enedigaeth mab i Mr a Mrs D. Griffith Davies, 8, Ogwen Terrace, Bethesda. Yna ar Chwefror 28ain, 1890, mae hysbysiad yn ymddangos yn y *Caernarvon & Denbigh Herald* fod Mr D. Griffith Davies, 8 Ogwen Terrace, Bethesda wedi bod yn llwyddiannus yn arholiad, '*Law Preliminary Examination*' allan o 142 oedd wedi eistedd yr arholiad. Dim ond 64 a fu'n llwyddiannus, ac roedd David yn un ohonynt.

At ddiwedd y flwyddyn 1890 ymddangosodd adroddiad yn y newyddiaduron am farwolaeth. 'Davies- Rhagfyr 15, yn 8 Ogwen-terrace, Bethesda, yn flwydd oed, Gwynne Griffith, unig blentyn Mr a Mrs D. Griffith Davies.'

Erbyn cyfrifiad 1891, mae David Griffith a'i wraig wedi symud o rif 8 Ogwen Terrace, i Ael y Bryn, Llanllechid. Roedd David yn 32 oed ac wedi ei eni yn Nhalsarnau, Sir Feirionnydd. Roedd Anne, ei wraig, yn 35 oed ac yn enedigol o Borthmadog, gyda merch 13 oed yn gweini iddynt o'r enw Sarah Williams, yn enedigol o Lanllechid.

Roedd rhif 8 Ogwen Terrace yn wag noson y cyfrifiad ym 1891 a 1901. Fodd bynnag, yn y *Caernarvon & Denbigh Herald*, Ionawr 26, 1894, cawn hanes claddedigaeth Mrs Roberts, Royal Hotel, Capel Curig, ac ymysg y rhai a oedd wedi anfon blodau i'r angladd oedd **Mr a Mrs Harry Roberts,** 8 Ogwen Terrace, Bethesda.

Erbyn 1911, teulu **Mary Roberts** oedd yn byw yn rhif 8 Ogwen Terrace. Mae hi'n nodi mai gweddw ydoedd ac yn byw yno gyda'i merch, Margaret, a oedd yn 15 oed. Roedd ei merch hynaf, Mary, a'i gŵr Thomas J. Williams, yn lletya gyda Mary, oherwydd y flwyddyn flaenorol, ar yr 11fed o Fai 1910, roeddynt wedi priodi yn Eglwys Crist, Glanogwen, Bethesda. Roedd y ddau'n 26 oed.

Mae Mary yn nodi mai gofalwr telephone oedd hi, ac mae Margaret, y ferch, yn dweud mae teleffonydd oedd ei swydd hi. Chwarelwr oedd Thomas, y mab yng nghyfraith, yn ôl y cyfrifiad.

Yn *Y Dydd* dyddiedig 18, Chwefror, 1910, cawn yr adroddiad canlynol: 'DAMWAIN ANGEUOL YN CHWAREL Y PENRHYN. Prydnawn Gwener, cyfarfu Thomas Roberts, 8 Ogwen Terrace, Bethesda â'i ddiwedd drwy syrthio tua 54 o droedfeddi yn mhonc George yn Chwarel y Penrhyn. Ymddengys ei fod yn dychwelyd at ei waith ar ôl y saethu 3 o'r gloch, ac iddo gamgymered y rhaff wrth fynd i lawr at ei waith ac iddo gymryd rhaff rydd a chwympo i'r gwaelod. Yr oedd archollion difrifol ar ei ben ac ni fu byw ond chwarter awr.

Yr oedd yr ymadawedig yn aelod o Seindorf y Penrhyn. Perthynai i'r hen Seindorf; ymunodd â'r newydd ffurfiwyd beth amser yn ôl, a chymerai ddiddordeb mawr yn y gwaith. Yr oedd tua 52 mlwydd oed.'

(i'w barhau) y mis nesaf - rhif 9 Rhes Ogwen

**William Roberts,** a anwyd yn Llanfrothen, oedd yn byw yn rhif 7 Ogwen Terrace, Bethesda yn 1871, gyda'i wr?

# Llandygái

## Eglwys Sant Tegai

**Diolchgarwch 2023**
Cafwyd gwasanaeth hyfryd i ddathlu Diolchgarwch am y Cynhaeaf ar fore Sul, Hydref 8fed. Arweinwyd yr addoliad gan ein Ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd a chawsom y fraint o groesawu Archddiacon David Parry fel pregethwr gwadd a hynny ar ei Sul cyntaf swyddogol yn y swydd. Traddododd David ar ddameg yr Ynfytun Cyfoethog gan ein annog i barhau i rannu gyda'r anghenus a chyfeiriodd at y casgliad yn yr eglwys tuag at fanciau bwyd lleol, sef Pantri Pesda a Chadeirlan Bangor. Glanhawyd ac addurnwyd yr eglwys ar y dydd Sadwrn blaenorol gan lawer o aelodau o'r gynulleidfa. Diolch i bawb a gyfrannodd eu hamser a'u hegni i greu naws hydrefol; gwerthfawrogwn eich ymroddiad. Roedd yr eglwys yn edrych ar ei gorau.



Archddiacon David Parry, pregethwr gwadd Diolchgarwch, a'r Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd gydag un trefniant o haelioni natur yn yr eglwys.



Eirlys Edwards o'r pentref yn dathlu ei phenblwydd arbennig gyda'r tîm clochyddion.

**Dathlu gyda'r Clychau**
Ddiwedd Awst, pleser pur i'r clochyddion oedd cael dathlu penblwydd arbennig Eirlys Edwards o'r pentref gyda chwarter caniad o'r clychau. Fel eglwys, gwerthfawrogwn gefnogaeth Eirlys pob amser. Cyfarchion penblwydd hefyd i Jan Roberts a ddathlodd ei diwrnod arbennig ar fordaith ar draws Fôr y Canoldir. Dathliad distaw oedd dewis Eileen Griffiths, ein aelod hynaf, ond llongyfarchiadau gwresog i hithau.

**Diwedd tymor ymwelwyr i'r Eglwys**
Mae'r eglwys ar gau i ymwelwyr tan Pasg 2024 yn dilyn tymor llwyddiannus yn y cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Estynnwn ein diolch i Raymond a Pauline Edwards am eu ffyddlondeb dyddiol i agor a chau drws yr adeilad. Wrth gwrs, bydd yr eglwys ar agor ar gyfer ein gwasanaethau.

**Adferiad buan**
Gyrrwn ein dymuniadau gorau i Pauline Edwards, Hen Dŷ'r Ysgol yn dilyn ei gwaeledd diweddar. Gobeithio clywed yn fuan eich bod yn teimlo'n well, Pauline! Cofion annwyl at Ceri Edwards, Helen Gill a Liz Jones wrth iddynt barhau gyda'u triniaeth.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn yn ddwys gydag un o'n cynulleidfa, Mary Bastable, Llanfairpwll, ar golli ei gŵr; bu Bob farw'n sydyn ganol mis Medi.

**Croeso'n ôl**
Croeso adref i'n plith i Alwena Williams, Bangor ar ôl ei hymweliad estynedig yn Awstralia. Mae mab Alwena a'i deulu wedi ymfudo ers rhai blynyddoedd a mae Alwena yn teithio draw ar wyliau yn flynyddol. Braf cael chi'n ôl, Alwena! Llongyfarchiadau hefyd i wyres Alwena, Helen, ar ei phriodas â Gethin Siôn. Daeth Nain yn ôl o Awstralia yn arbennig ar gyfer y dathliad!

**Sul y Cofio Tachwedd 12fed 2023**
Erbyn cyhoeddiad y papur yma bydd cynulleidfa St Tegai wedi ymuno â chynulleidfa Sts Fair (Gelli) Tregarth i gymryd rhan yng ngwasanaeth y Cofio. Roedd y gwasanaeth yn dechrau am 9.30 yn Eglwys Gelli ac yn dilyn wrth y giât ar gyfer Seremoni'r Cofio.

**Gwasanaethau**
**Ar y Sul**
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248 361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.


Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Datganiad Dyffryn Caredig a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol




Mewn cyfnod ble mae cymunedau'n wynebu heriau trafnidiaeth a chostau byw cynyddol mae Partneriaeth Ogwen yn falch iawn cyhoeddi newyddion ardderchog fod Cronfa Gymunedol y Loteri wedi penderfynnu ariannu prosiect y Dyffryn Caredig. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar lwyddiant blaenorol y Dyffryn Gwyrdd a'r tro yma bydd y prosiect dwy flynedd yn canolbwyntio ar drafnidiaeth gymunedol – cerbydau a beiciau trydan fydd yn darparu cludiant fforddiadwy a cynaliadwy'i gymunedau Dyffryn Ogwen.

Mae'r Bartneriaeth wedi derbyn £327,411.00 ar gyfer y prosiect er mwyn datblygu ac hyrwyddo Dyffryn Ogwen fel ardal gynaliadwy. Dywedodd Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen " Rydym wrth ein boddau, ac yn wirioneddol ddiolchgar i'r Gronfa Gymunedol ac i Chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am y cefnogaeth hael yma. Byddwn yn defnyddio'r arian hyn i ehangu'n cludiant cymunedol werdd fydd yn cynorthwyo trigolion ein cymunedau'i gyrraedd apwyntiadau, gwaith, siopa a digwyddiadau cymdeithasol. Bydd hyn yn cyfrannu at leihau ol-troed carbon y Dyffryn a chryfhau gwead ein cymuned a chyfranogiad trigolion i fywyd a chymdeithas Dyffryn Ogwen".

Ychwanegodd Huw Davies, Rheolwr y Dyffryn Caredig " Mae'r newyddion ardderchog yma'n hwb mawr i'n gwaith ac yn deillio o waith caled y timau'n y Bartneriaeth, y Gwirfoddolwyr sydd wedi cefnogi'r gwaith a'r defnyddwyr gwasanaethau sy'n greiddiol i bob dim rydym yn wneud yn y Bartneriaeth. Byddwn nawr yn gweithio eto gyda'n holl bartneriaid er mwyn darparu atebion hygyrch, fforddiadwy a chynaliadwy'i lenwi bylchau trafnidiaeth gyhoeddus ein cymuned".

# Ymweliad â Cae Rhosydd i weld y datblygiad tai diweddaraf

Croesawodd Adra a Williams Homes Bala, ddirprwyaeth o Gyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Bethesda'r wythnos hon i weld sut mae hen dir fferm llawn hanes ger Rachub wedi cael ei drawsnewid i greu datblygiad tai fforddiadwy.

Mae Adra, cymdeithas dai fwyaf gogledd Cymru wedi datblygu'r safle i gynnwys 30 o gartrefi modern, gan gynnwys 26 tŷ a 4 byngalo, sy'n gymysgedd o gartrefi rhent cymdeithasol a rhent canolraddol.

Mae'r holl dai ar y datblygiad gyda thystysgrif perfformiad egni (EPC) o A, gyda phaneli solar ac yn cael eu gwresogi gyda Phympiau Gwres Ffynhonnell Aer.

Mae'r datblygiad hwn yn rhan o bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chymdeithasau Tai fel rhan o Raglen Ddatblygu Tai Fforddiadwy Gwynedd. Ariannwyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru drwy Grant Tai Cymdeithasol Cyngor Gwynedd sydd yn anelu at gyflawni nod y Cyngor o godi 700 o dai cymdeithasol ar draws y sir erbyn 2026/27.

Dywedodd Gareth Davies-Jones, Uwch Reolwr Prosiect Datblygu Adra: "Rydym yn falch iawn o weld y datblygiad wedi'i gwblhau.

"Mae cymaint o alw am dai fforddiadwy yng Ngwynedd a gogledd Cymru, sy'n adlewyrchu'r darlun cenedlaethol. Mae Adra wedi gwneud ymrwymiad cadarn yn ei Chynllun Corfforaethol i adeiladu cartrefi newydd ynni effeithlon, o ansawdd uchel ac yn fforddiadwy o safbwynt rent a costau gwresogi."

Dywedodd y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Dai ac Eiddo: "Mae Gwynedd mewn argyfwng tai ac mae'r galw am dai fforddiadwy o ansawdd yn llawer uwch na'r cyflenwad sydd yn y sir. Fel Aelod Cabinet Tai ac Eiddo felly, rydw i felly'n falch iawn o'r berthynas sydd gennym gyda Phartneriaid Tai fel Adra wrth i ni gydweithio i geisio lleddfu'r broblem yma i drigolion



Gwynedd.

"Mae sicrhau bod tai fforddiadwy Gwynedd yn fwy gwyrdd, yn ynni-effeithiol ac yn lleihau ôl troed carbon yn bwysig iawn i mi ac i'r Cyngor, ac mae'n wych ac yn glod i Adra eu bod yn codi cartrefi newydd sy'n cyd-fynd efo'r egwyddor allweddol yma."



Cae Rhosydd o'r awyr

# CHWILAIR



## CHWARELI GOGLEDD CYMRU

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | P | A | N | T | D | R | E | I | N | I | O | G | S | H | E | I | M | G |
| V | H | M | D | W | H | U | G | Z | M | X | V | A | D | D | N | A | P | A | U |
| Q | N | Y | W | G | L | I | C | L | U | S | O | B | F | R | P | Y | Q | Z | G |
| R | G | I | W | R | O | N | I | D | Y | H | C | R | U | M | W | N | T | O | Y |
| R | I | A | S | Z | U | T | F | E | D | N | X | Y | U | P | W | R | A | H | C |
| Q | S | H | W | E | H | O | Y | O | E | E | R | N | G | E | O | M | L | H | E |
| P | E | T | T | C | B | B | C | C | U | U | J | H | P | L | T | M | S | I | V |
| V | O | D | C | B | B | F | A | R | R | F | O | A | O | G | J | V | A | I | I |
| R | R | R | X | I | M | H | E | A | T | T | O | F | S | N | K | O | R | P | W |
| R | G | C | N | M | K | C | H | F | B | O | R | O | C | X | W | V | N | R | Y |
| H | Y | N | A | S | T | M | T | D | R | E | F | D | Y | J | D | Y | Z | H | B |
| C | H | Y | F | W | O | S | O | D | C | R | A | Y | I | X | N | I | L | X | J |
| J | C | H | Y | M | B | W | R | O | T | E | X | W | M | D | X | K | F | U | P |
| C | L | R | R | Q | Y | O | O | L | I | L | F | E | E | U | R | Z | Q | R | O |
| C | W | N | T | T | D | G | D | C | W | S | L | R | D | Z | E | B | E | A | J |
| K | B | E | L | J | C | L | N | L | R | V | O | N | G | J | P | W | P | G | S |
| O | W | P | E | J | J | Q | U | L | F | S | F | V | T | X | E | U | G | H | S |
| L | Z | E | O | A | F | X | I | W | T | E | Z | H | K | V | A | G | B | N | K |
| A | D | S | M | I | K | O | G | D | C | H | B | S | I | U | R | O | X | A | G |

Yn y Chwilair mis yma MAE ENW DEUDDEG CHWAREL YNG NGOGLEDD CYMRU PAN OEDDYNT YN EU HANTERTH. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb, yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 24 Tachwedd. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Mae fy niolch yn fawr iawn i Emrys Griffiths, Rhosgadfan, am awgrymu'r testun ar gyfer mis Tachwedd. Nid oes cymaint o bwysau arnaf i ddod o hyd i destun wrth dderbyn awgrymiadau ar gyfer y Chwilair.

**Dyma atebion Chwilair Hydref:** Billy Meredith; Dean Saunders; Gareth Bale; Ivor Allchurch; John Charles; Leighton James; Mark Hughes; Micky Thomas; Neville Southall; Ryan Giggs; Tommy Jones; Wayne Hennessey.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Elizabeth Buckley, Tregarth; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Carys Parry, Glanogwen; Stephen Morris, Tregarth; Judith Hughes, Llangoed; Doris Shaw, Bethesda; Wendy Eccles, Llanllechid; John Glyn Jones, Braichmelyn; Tomos Enoc Williams, Carneddi; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Elin Pritchard, Llanllechid; Mrs Ann Williams, Glasinfryn; Rosemary Williams, Tregarth.

**Enillydd Hydref oedd:** Judith Hughes, Wenallt, Llangoed.

## Natur o'n Cwmpas

# Yr Afr Fynydd

Rydym yn hen gyfarwydd â gweld y geifr ar lethrau ac yng ngodreon Tryfan a'r Glyderau, ond beth yn union yw eu hanes? Ar un adeg, y dybiaeth oedd mai'r Rhufeiniaid a ddaeth â nhw yma 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Bellach, barn biolegwyr amgylcheddol yw bod y geifr hyn wedi bod yma ers diwedd yr Oes y Rhew ddiwethaf, bron 10,000 o flynyddoedd yn ôl, a'u bod wedi eu dofi i fod o ddefnydd i'r amaethwyr cynnar.

Felly, cael eu cadw a'u magu gan ffermwyr drwy'r canrifoedd ar y gweunydd uchel oedd eu hanes o gyfnod cynnar iawn, a hynny am eu cig a'u llefrith, a'r defnydd a wnaed o'u blew, eu cyrn a'u carnau.

Gwelir o hyd yn y cyffiniau olion ambell gwt myn fel y'i gelwid. Diben cwt cerrig o'r fath oedd dal geifr i'w godro. I wneud hynny, clymid myn yn y cwt, a byddai ei fref yn denu'r fam i mewn ato i'w dal gan y ffermwr. Credir mai o gyfnod bugeilio a godro'r geifr y daw'r gân werin boblogaidd 'Cyfri'r Geifr' – 'Oes gafr eto? Oes heb ei godro. Ar y creigiau geirwon mae'r hen afr yn crwydro ...' Daeth y cyfnod hwnnw i ben wrth i ddulliau amaethu newid a datblygu, ac arhosodd y geifr yn y mynydd heb unrhyw gysylltiad â'r ffermwyr.

Heddiw, Parc Cenedlaethol Eryri, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am warchod eu cynefin mynyddig. Boed i'r geifr mynydd barhau oherwydd maen nhw mor bwysig â'r merlod mynydd fel nodwedd hanesyddol arbennig o'n hamgylchedd naturiol yma yn ucheldir Eryri.

**YR AFR FYNYDD**

Hen ei hanes, arglwyddes y glog,
A hi piau nawdd y copaon hyn.

Sicr ei choes, cywir ei cham,
Yn gry' ei llam dros y grug a'r llus;
Mor ddi-sigl ei charn ar y garnedd,
Mor heini ar y meini miniog
A gro mân esgeiriau'r mynydd.

Â'r awel ar y rhiwiau,
Byw'r hafau iach ar y borfa uchel
Y bydd hi, ac wedi ymbesgi,
Ei byd yw gorwedd mewn gweiriau
Ac aros yn y gwres yn y Waun Gron
Yn ddiogel-dawel ei dydd.

Â'r rhewynt ar y rhiwiau
A throedio'n her â'r llethrau dan eira,
Hi yw merch y lluwch ym mraich y
llechwedd
A hafnau dyfnion agennau'r clogwyni,
Yn daer ei gafael drwy'r gerwinder gaeafol.

Uwchlaw, yn yr uchel-leoedd,
Draw ar y drum, hyd rimyn y grib grog,
Mae hi, â'i myn yn dilyn yn dalog,
Ar ei hynt o Gastell y Gwynt i Gastell y Geifr,
Yn ffyddlon i'r copaon pell.

(IW) (*Inc yr Awen a'r Cread; Cerddi Byd Natur*, Rhys Dafis (gol.), Cyhoeddiadau Barddas, 2022)



*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*

CAFFI
COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

MODURDY
FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Dilynwch Llais
Ogwan ar X
@Llais_Ogwan

# Grantiau Elusen Ogwen yn gwella'r Dyffryn

Dyma'r drydedd golofn mewn cyfres sydd wedi bod yn sôn am rai o'r prosiectau a'r gweithgareddau sydd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan Elusen Ogwen yn ddiweddar.

Elusen sy'n dosbarthu elw o gynlluniau ynni cymunedol Ynni Ogwen yw Elusen Ogwen, ac rydym eisoes wedi clywed am eu grantiau diweddar sydd wedi cefnogi Dreigiau'r Dyffryn, Clwb Rygbi Bethesda, Cyfeillion Ysgol Llanllechid ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Cofiwch, os ydych chi'n grŵp neu'n fudiad lleol, ac y mae gennych chi syniad am weithgaredd neu brosiect fyddai'n dod â budd i'r ardal, mae croeso mawr i chi gysylltu gyda Lowri Williams yn Elusen Ogwen i gael sgwrs anffurfiol i weld os byddwch yn gymwys am grant, ac i gael cymorth gyda'r ffurflen gais. Mae'r arian yma ar gyfer y gymuned, felly ewch amdani!

Un aeth ati i wneud cais o'r fath yw Mike Goldthorp o Bwyd am Byth.

"Fe glywsom ni am Elusen Ogwen trwy Partneriaeth Ogwen, ac fe gawsom grant i gefnogi cymysgedd o weithgareddau plant dros wyliau'r haf. Enw'r prosiect yw 'Bwyd a Bushcraft', felly roedden ni'n cynnig amrywiaeth o arddio yng ngerddi'r ysgol a mynd draw i'r goedwig leol gan wneud ychydig o weithgareddau ysgol goedwig a choginio dros dân."

"Roedd y nawdd yn golygu bod modd i ni gynnig ystod o weithgareddau gwahanol i blant, pethau sydd ella yn apelio fwy at blant sydd ddim yn mwynhau chwaraeon gymaint. Dwi'n cofio un hogyn ifanc yn defnyddio llif am y tro cyntaf yn un o'r sesiynau, ac mi ddywedodd mai dyma ddiwrnod gorau ei fywyd!" Meddai Mike, a sefydlodd y fenter gymdeithasol nid-er-elw Bwyd am Byth er mwyn cefnogi ysgolion lleol a grwpiau cymunedol i ddatblygu mannau yn yr awyr agored a chreu gerddi hardd, bwytadwy.

"Elusen Ogwen wnaeth hyn i gyd yn bosib. Heb yr arian yna mi fyddem wedi gorfod codi llawer am y sesiynau er mwyn medru eu cynnal, felly roedd nawdd Elusen Ogwen yn gwbl hanfodol. Hefyd mae'r ffaith ei bod yn elusen leol yn golygu mwy, mae'n dda gweld yr arian yn troi yn y gymuned leol."

Mae Dyffryn Gwyrdd, un o brosiectau amgylcheddol Partneriaeth Ogwen hefyd wedi derbyn nawdd gan Elusen Ogwen yn ddiweddar. Huw Davies, Cydlynydd y prosiect fu'n esbonio.

"Cael syniad wnaethom ni o greu pecynnau ar gyfer teuluoedd yn sgil yr argyfwng costau byw. Aethon ni ati i greu pecynnau, bagiau papur oedden nhw, gan roi taflenni ynddyn nhw yn rhoi gwybodaeth am sut i arbed ynni, a gyda dau fwlb golau sy'n arbed ynni ym mhob pecyn. Felly roedd yr arian a dderbyniom ni gan Elusen Ogwen yn talu am y bylbiau, y taflenni a'r bagiau.

"Rydan ni wedi rhannu 972 o becynnau i gyd! Rydan ni'n ddiolchgar iawn i Elusen Ogwen, ac yn lwcus iawn o'r gronfa yma sydd yn lleol i ni."

Mae'r gronfa yn derbyn ceisiadau am grantiau llai na £750 trwy'r flwyddyn, ond y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau am fwy na hynny (hyd at £3,000) yw 31 Rhagfyr, felly beth am roi cynnig arni?

Ewch ati i ddarllen y canllawiau a llenwi'r ffurflen gais, a phwy a ŵyr, efallai mai chi fydd yn adrodd eich hanes yn Llais Ogwan ac yn diolch am gefnogaeth Elusen Ogwen yr adeg yma flwyddyn nesaf!










# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts



**Llu o berfformiadau**

Mae'r côr yn llawn prysurdeb gyda sawl perfformiad wedi bod ers yr egwyl a gafwyd dros fis Awst yn dilyn Eisteddfod Boduan. Er na phrofwyd llwyddiant yn yr ŵyl honno, mae'r galw am wasanaeth y côr yn ddi-dor a bu perfformiadau yn Llandudno, Betws y Coed, Henllys a Neuadd Powys yn y Brifysgol ym Mangor. At hynny, mae nifer mawr o alwadau yn y dyddiadur dros y misoedd nesaf.

Yn Neuadd Powys ar 19 Hydref perfformiwyd o flaen Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru a Michael Martin, Tánaiste (Dirprwy Brif Weinidog) Iwerddon ynghyd â chynrychiolwyr eraill o'r ddwy lywodraeth oedd yn cynadledda mewn fforwm yno. Hwn oedd y trydydd fforwm o'i fath rhwng llywodraeth y weriniaeth a llywodraeth Cymru.

Mae sawl datblygiad pwysig sy'n dod â buddsoddiad i economi'r ddwy wlad wedi deillio o'r cyfarfodydd hyn ym myd gwyddoniaeth, prosiectau cychwynnol neu ddechreuol gan gynnwys datblygu Porthladd Caergybi, a Hwb Hydrogen Morlais.

Felly, mae Côr y Penrhyn yn cael bod yn rhan o ddatblygiadau pwysig a gwerthfawr yn y byd modern..

**Y cysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon yn parhau.**

Yn ystod y gwanwyn mae'r aelodau'n bwriadu mynd i'r Ŵyl Pan Geltaidd yn Carlow, de ddwyrain Iwerddon. Mae sawl blwyddyn ers i'r côr gystadlu yn yr ŵyl honno a bydd ymweld â gweriniaeth ein cefndryd Gwyddelig yn brofiad newydd i nifer o aelodau mwyaf diweddar y côr.

**Ar gyfer eich Dyddiaduron**

Cyn hynny, ar 17 Tachwedd bydd y côr yn cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ac ar 1 Rhagfyr mae cyngerdd i godi arian at Hosbis Dewi Sant yng Nghadeirlan Bangor unwaith eto. Wedyn ar 17 Rhagfyr byddwn yn cymryd rhan yn y Cyngerdd Nadolig blynyddol yng Nghapel Jerwsalem. Mae'r rhain yn ychwanegol i ginio Nadolig y côr yn y Clwb Rygbi a pherfformio yn Henllys.

# Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Ross Craigmile. Mae Ross wedi byw a gweithio fel pianydd a darlithydd yn Barcelona, Trento yn yr Eidal ac yn Sisili..**



**Be' ydy dy enw llawn?** Ross Craigmile
**Oed?** 64
**Gwaith?** Cerddor
**Lle wyt ti'n byw?** Nant Peris
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Dyffryn Conwy
**Pa dri pheth fasa'n dy ddisgrifio orau?** Cymdeithasol ond pedantig ac ystyfnig.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ers blwyddyn.
**Pa lais wyt ti?** Bas
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Roeddwn i isio gwella fy llais a siarad Cymraeg yn well.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** 'Mor Fawr Wyt Ti'
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? –** Edita Grubarova soprano o Slofacia.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop? –** Rydw i'n hoffi llawer o ganu pop.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** – Roedd yr ymweliad â Huddersfield yn gofiadwy iawn. Ar ôl y cyngerdd ffurfiol mewn capel, lle cafwyd derbyniad gwresog mi wnaethon ni fwynhau ymweld â Chlwb y Gweithwyr yn y dref honno. Bu'r côr yn difyrru mynychwyr y clwb efo llu o ganeuon byrfyfyr a digyfeiliant.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** – Dwi'n mwynhau cerdded y bryniau a'r mynyddoedd ac yn mynd mor aml â phosib.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** – Efallai y byddai canu rhannau allan o opera Eidalaidd yn brofiad buddiol a diddorol i'r côr.
**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** – Hoffwn i aelodau newydd gael nodau cliriach e.e. pa ddarnau mae angen iddyn nhw ddysgu ac yna eu cyfarwyddo i ddysgu caneuon ar eu cof ar gyfer cyngherddau.


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Priodas**
Llongyfarchiadau mawr i Dr Huw Mithan, gynt o Hafod Wen, Ffodd Bangor, Bethesda a Dr Sophie Nuber ar eu priodas ar 21ain o Orffennaf yn Bad Endorf, Bavaria. Ar hyn o bryd mae'r ddau yn gweithio ym Mhrifysgol Taipei, Taiwan.



**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Emily a Ben, Maes Coetmor, ar enedigaeth merch fach, Molly Ann ar 4 Medi. Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid, Maes Coetmor, sef Amber a Stuart; a Pete Riley, Rhiwlas a Beryl Riley, Warwick. Hefyd i hen nain a hen daid, sef Heather ac Arnold , Bangor, a Shirley Evans, Abercaseg. Mae Molly Ann yn or-wyres gyntaf i'r teulu, ac yn wyres gyntaf i Stuart ac Amber.

**Cyfarchion**
Ni fydd Eirwen a Dilwyn, Erw Las yn anfon cardiau Nadolig eleni oherwydd eu hafiechyd. Fodd bynnag maent yn anfon cyfarchion yr Ŵyl i'w cymdogion a'u holl ffrindiau a chyfeillion ym Methesda.  Maent yn cyflwyno rhodd i'r Llais am eu cydweithrediad parod.

**Geni**
Llongyfarchiadau i Donna a Llifon , Ffordd Coetmor ar enedigaeth mab bach, Osian Tomos ar Hydref 3ydd. Brawd bach i Lili ac ŵyr i nain a taid Huw Griffiths, Cyffordd Llandudno, taid Hefin Jones, Hen Barc a hen nain Jessie Jones, Glanafon.

**Clwb Gorffwysfan - Digwyddiadau**
Gwibdaith Marchnad Bury, dydd Mercher, 29 Tachwedd. Cychwyn ger y gofeb am 8.15yb. Cinio Nadolig, dydd Gwener, 15 Rhagfyr yn y Clwb Rygbi Bethesda.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Gareth William Jones, Bow Street, Ceredigion, gynt o Fethesda, ar ennill Coron Eisteddfod Talaith a Chadair Powys, Edeyrnion a Phenllyn 2023.  Dyfarnwyd y Goron am waith creadigol heb fod dros 10,000 o eiriau ar y thema "Man Gwyn".

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**Marw**
*Anne Christine Williams*
Ar 8 Hydref yn Ysbyty Gwynedd, yn 83 mlwydd oed, bu farw Anne Christine Williams, gynt o Lle Buddug. Priod y diweddar Glyn (Edern gynt), mam annwyl Steven, David, Andrew a Colin. Nain a hen nain hoffus a chwaer annwyl i Jean, Porthaethwy. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Mercher, 18 Hydref, yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad Lorna Todd gydag Eurwen Darwood wrth yr organ. Rhoddwyd ei llwch i orwedd ym medd ei phriod ym Mynwent Edern. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu.

*Derek Rowlands*
Yng Nghartref Glan Rhos, Brynsiencyn, ar 9 Hydref bu farw Derek Rowlands, Stryd Fawr, Bethesda. Priod y diweddar Valerie, tad Angharad, taid Ewan a brawd Richard, Carol, Gillian a'r diweddar Lena, Cynhaliwyd ei angladd ar ddydd Gwener, 20 Hydref yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn a'r teulu i gyd.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Clwb Cant yr Apêl** Diolch i bawb a ymunodd am y flwyddyn i ddod.  Gan fod nifer heb ail-ymuno, a'r cyllid felly yn llai, dwy wobr yn unig fydd am y flwyddyn.  Ac mae rhai wedi cael rhifau newydd, oherwydd symud er mwyn llenwi'r bylchau; bydd unrhyw rai sydd wedi cael rhif newydd yn cael eu hysbysu o'r newid.

**Enillwyr mis Hydref:**
£30 – Rhif 45 – Angela Roberts
£25 – Rhif 55 – Mrs Norma Griffiths

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis yn ystod y baned; croeso cynnes i bawb.

**Raffl Nadolig** Diolch i siop Morrison's am gyfrannu Hamper o nwyddau i'w rafflo er budd yr Apêl, mae tocynnau ar gael gan aelodau ac yn yr eglwys.

**Amlenni Rhodd** Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Mae sawl un wedi holi ynglyn a thalu trwy drosglwyddiad Banc os yn methu dod i'r gwasanaethau.  Rhif Cyfrif Glanogwen yn y Banc Natwest yw 51-61-28  06306284.  Gellir gwneud un taliad neu sefydlu Taliad Sefydlog (Standing Order) ar gyfer bob mis neu unrhyw batrwm arall.

**Cofion** Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl.
Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

**Gwasanaethau dros y Nadolig:**
Noswyl Nadolig – Dydd Sul, Rhagfyr24:
11.00am. – Gwasanaeth 9 Llith a Charol
4.00pm – Wrth y Preseb – gwasanaeth byr i'r plant a'u teuluoedd
7.00pm – Gwasanaeth Cymun
Dydd Sul, Rhagfyr 30.
11.00 - Carolau Ystwyll – Eglwysi Bro Ogwen ar y cyd.

Croeso cynnes i bawb fel arfer

**Gwasanaethau**
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Pob nos Fercher am 7yh – Awr dawel i gau'r byd a'i broblemau allan.
Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ar gael ar 07967652981.

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol unwaith eto yn ystod yr wythnosau a aeth heibio. Diolchwn i'r Parchedigion Trefor Lewis a Cledwyn Williams am eu cyfraniad, ac i Ceri am ei sylwadau gwerthfawr hithau. Cafwyd oedfa wahanol a diddorol pan y cyflwynodd Dewi Jones, Emyr Roberts, Dennis Dart a Walter Williams eu hoff emyn neu dôn i ni eu canu. Diolch iddynt hwythau am eu cyfraniadau.

**Diolchgarwch**
Daeth cynulleidfa deilwng iawn i'r gwasanaeth Diolchgarwch fore Sul, Hydref 15fed, o dan ofal ein Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths. Hyfryd oedd cael croesawu ein cyfeillion o Eglwysi'r Ofalaeth Bro atom am y tro cyntaf mewn oedfa undebol, a braf oedd clywed canu grymus yn y Capel unwaith eto. Edrychwn ymlaen at gyfarfodydd cyson fel hyn – byddwn yn ymweld ag Eglwysi'n gilydd bob blwyddyn.

**Y Gymdeithas**
Yng nghyfarfod cyntaf y tymor, daeth Beca Roberts atom i roi darlun o'i gwaith fel Cynghorydd Sir. Mwynhawyd orig addysgiadol a diddorol iawn yn ei chwmni. Y mis nesaf, disgwyliwn i Walter Williams ddod atom i siarad am Gapel Celyn, sef ei fan geni.

**Bore Coffi McMillan**
Gwnaethpwyd elw o dros £500 yn y bore Coffi uchod – diolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion annwyl at y rhai sydd yn methu bod gyda ni yn ein hoedfaon, gan obeithio y cewch gysur o wrando ar yr oedfaon dros y ffôn.

**Gweithgareddau**
Mae amryw o weithgareddau'n cael eu cynnal yn yr adeiladau - y Sgowtiaid, Sefydliad y Merched, a'r Gymdeithas Hanes yn eu mysg. Braf yw gweld defnydd yn cael ei wneud o'r ystafelloedd. Croeso hefyd i Gôr Meibion y Penrhyn, sydd wedi llogi ystafell barhaol ar gyfer cadw holl greiriau'r Côr. Edrychwn ymlaen at weld yr arddangosfa arfaethedig pan fydd y gwaith mawr o ddidoli a threfnu wedi'i gwblhau.

**Gwasanaethau'r Sul**
Tachwedd 12: Gweinidog(10)
Tachwedd 19: Y Parchedig Robert Capon (5)
Tachwedd 26: I'w drefnu (10)
Rhagfyr 3: Trefniant Mewnol (10)
Rhagfyr 10: Oedfa Nadolig y Plant o dan ofal y Gweinidog (10.30)
Rhagfyr 17: Gwasanaeth Nadolig Cymunedol (7)
Rhagfyr 24: Gweinidog

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol**
Cynhelir y gwasanaeth hwn nos Sul, Rhagfyr 17eg, yn y Capel, am 7 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at glywed cyfraniadau gan Gôr Meibion y Penrhyn ac unigolion eraill. Dewch yn llu i ddathlu gwir ystyr y Nadolig.

## Adroddiad Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor yn rhithiol ar nos Iau, 26ain o Hydref.

**PC Dewi Davies, Rheolwr Cymuned Bethesda** Croesawyd PC Dewi Davies, Rheolwr Cymuned Bethesda i'r cyfarfod. Cafwyd adroddiad byr ar rhai o'r materion yn yr ardal, yn cynnwys defnydd o'r sustem CCTV newydd sydd wedi cael ei osod ar y Stryd Fawr. Nodwyd fod y sustem newydd wedi bod yn adnodd gwerthfawr iawn i'r heddlu ers cael ei osod, a diolchwyd i'r Cyngor Cymuned am ariannu'r prosiect. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau godi materion ac i ofyn cwestiynau am faterion sydd angen sylw yn yr ardal.

**Llwybr y Llawfeddyg, Parc Meurig**
Adroddwyd fod y Clerc wrthi'n cael prisiau ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ar gyfer Llwybr y Llawfeddyg ym Mharc Meurig, ac ynghanol trafodaethau gyda'r tirfeddiannwr i adnewyddu'r les ar y llwybr.

**Goleuadau Nadolig** Adroddwyd fod y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda'r adran goleuo stryd, Cyngor Gwynedd, i sicrhau na fydd y problemau blaenorol gyda'r goleuadau Nadolig yng nghanol y Stryd Fawr yn broblem eto eleni. Sicrhawyd y cyngor y bydd yr holl waith cynnal a chadw ac atgyweirio yn cael ei wneud cyn y dyddiad gosod ar ddechrau mis Rhagfyr.

**Cae Chwarae Gwaun Gwiail** Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd eu bod wedi derbyn adroddiad gan eu cwmni yswiriant am gyflwr y cae sydd yn gael ei brydlesu gan Stad Penrhyn. Yn ôl yr adroddiad, nid yw'r cae mewn safon digon da i'w ddefnyddio ar gyfer chwarae pêl-droed, hynny oherwydd bod cerrig i'w gweld mewn llefydd ar wyneb y tir. Nododd aelodau'r Cyngor fod plant yn dal i ddefnyddio'r cae pêl-droed, yn enwedig yn yr haf, felly mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus iawn i Gyngor Gwynedd adnewyddu'r les gyda stad Penrhyn a gwneud yr hyn sy'n ofynnol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y cwmni yswiriant.

**Toriadau Gwair** Nodwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi'r Cyngor os oes modd talu am doriadau ychwanegol ar ochr yr A5 – cytunwyd i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am drefnu toriadau llefydd megis Bangor, Caernarfon ayyb. Nodwyd nad yw safon y torri presennol gan Gyngor Gwynedd yn ddigon da.

## Carnifal 2024

Wedi llwyddiant ysgubol y carnifal llynedd mae gweithgareddau Carnifal 2024 wedi hen ddechrau a'r pwyllgor wedi ei sefydlu ac ar waith. Dyma nhw:
Cadeirydd – Susan Roberts
Ysgrifennydd – Anwen Jones
Is-ysgrifennydd – Julie Jones
Trysorydd – Donna Watts
Swyddog y wasg/ cyfrynga – Iona Robertson
Cydlynwyr digwyddiadau – Elen Lillie, Ceri Evans
Dylunio a gwisgo'r fflôt – Fiona Sherlock

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn gwirfoddoli neu roi rhoddion tuag at y digwyddiadau sydd ar y gweill bydd y pwyllgor yn ddiolchgar iawn. Anfonwch e-bost at carnifalbethesda@gmail.com
Digwyddiadau hyd ddiwedd y flwyddyn:-
Nos Iau, Tachwedd 30ain DYDDIAD CAU CEISIADAU TEULU BRENHINOL
Dydd Sadwrn, Rhagfyr 2il, 11: 00 yb **RÂS SION CORN**. Cychwyn Clwb Rygbi Bethesda
Dydd Sadwrn, Rhagfyr 9fed
**TAITH SIÔN CORN**
Cychwyn 4: 30 y prynhawn Plas Ogwen

Mae'r Pwyllgor wrthi'n ddiwyd yn trefnu digwyddiadau codi arian ar gyfer cynnal y carnifal eto flwyddyn nesaf. Mae cwpwl o ddigwyddiadau wedi bod yn barod, ond siomedig oedd y nifer a fynychodd. Mae'n hynod bwysig ein bod ni'n cael cefnogaeth gan yr holl gymuned, fel bod ni'n gallu cynnal y carnifal unwaith eto, oedd yn lwyddiant mawr yn 2022 a 2023!

Diolch i bawb sydd wedi, ac yn parhau i gefnogi'n gweithgareddau er mwyn gallu cynnal Carnifal Bethesda yn flynyddol. Rydym yn croesawu unrhyw gymorth gan unigolion i wirfoddoli yn ein digwyddiadau ac ar ddiwrnod y Carnifal.


**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

# Marchnad Ogwen

Sut mae nifer o stondinau diddorol, criw o hogia lleol yn canu, a swper yng nghwmni cyfoedion y Dyffryn yn apelio? Diddordeb? Wel Marchnad Ogwen nos Fercher Tachwedd 22ain amdani felly! Bydd ein Stondinwyr arferol, a rhai newydd yn barod i'ch croesawu. Bydd cyfle i brynu powleniad o lobsgows (sbario gwneud swper adref) a chael cerddoriaeth o safon gyda HOGIA'R BONC – A gwneud dipyn go lew o Siopa 'Dolig heb orfod symud o Pesda efallai!

Bydd y Farchnad yn croesawu stondinau newydd yn ogystal â'r ffyddloniaid arferol (caws, cacennau, bwydydd crwst, wyau, llysiau, nwyddau wedi eu gwau a gwnio, coffi, jam a diodydd o ffrwythau lleol, nwyddau harddwch, gwybodaeth gan Partneriaeth Ogwen a mwy). Bydd dwy hen stondin – Crefftau Howget a Cardiau Maes Melyn yn ôl am un tro yn unig. Y rhai newydd yw Crochenwaith Gwenllian Dwyfor, Bragdy Lleu, Catrin Jones, gemwaith, a Charlotte Louise, printiau Cymraeg. Efallai y bydd mwy eto o stondinau erbyn y noson yma, a Marchnad Rhagfyr 9fed. (gan ein bod yn disgwyl atebion gan ambell stondin).

Bydd lobsgows a raffl ar werth yn y ddwy Farchnad nesaf yma gyda gwobrau o £50, £25, £10 a gwobrau eraill.

Rydym yn edrych ymlaen i'ch croesawu nos Fercher, Tachwedd 22ain o 5 – 8 o'r gloch a Rhagfyr 9fed o 9.30 – 1.00. (Bydd y Farchnad yn Neuadd Ogwen ar yr ail Sadwrn o bob mis fel arfer o hyn ymlaen). Mae gwybodaeth gyfredol ar facebook y Farchnad.

**Croeso i Farchnad Ogwen**
*Os am gael nwyddau lleol gwych*
*A siawns am ambell fargan,*
*Y lle i ddod bob mis, yn siŵr,*
*Yw Marchnad Dyffryn Ogwan.*

**Cytgan:-**
*Croeso i Farchnad Ogwan,*
*Croeso i Farchnad Ogwan,*
*Os am fargeinion gwerth eu cael,*
*Wel dewch i Farchnad Ogwan.*

*Cewch ddewis o stondinau lu*
*I wario ambell buntan,*
*Ar grefftau cain neu fwydydd iach*
*Ym Marchnad Dyffryn Ogwan.*

*Lle braf am sgwrs â hwn a hon*
*Dros banad a bisgedan,*
*Cyn prynu gan stondinwyr clên*
*Ym Marchnad Dyffryn Ogwan.*

*Mae'r siopau mawrion yn gwneud pres*
*Ar draul busnesau bychan,*
*Ond hybu lles busnesau llai*
*Wna Marchnad Dyffryn Ogwan.*
*(Neville Hughes)*

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**
## Gyrfa Chwist
Tachwedd 28
Rhagfyr 12 a 19
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

**FESTRI CARMEL**



Cynhelir
TE BACH
**Dydd Llun, 4 Rhagfyr**
2.30 – 4.00
Croeso i bawb.

## Ffair Nadolig
**EGLWYS ST. CEDOL**
yng Nghanolfan Glasinfryn
Sadwrn, 25 Tachwedd
am 2 o'r gloch

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid
Nos Fercher, Tachwedd 29ain 2023
am 7 o'r gloch
yn y Clwb Criced
Sgwrs gan
**Mr. André Lomozik**
'Taith Hanesyddol Mewn Lluniau'
CROESO CYNNES!

## Drws Agored
**YNG NGHAPEL SHILOH NEWYDD, TREGARTH**
**BOB BORE GWENER O 10 TAN 12 O'R GLOCH CWMNI, SGWRS, PANED A CHYNHESRWYDD**
**CROESO I BAWB DROI MEWN.**

## Clwb Coffi Talybont
YN FESTRI BETHLEHEM
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
**Tachwedd 13 a 27**
**Rhagfyr 11**
Croeso cynnes i bawb

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA**
## Y GYMDEITHAS
**Dathlu'r Nadolig**
gyda'r Parchg. Huw Pritchard
yn Festri Jerusalem
**Nos Iau, 14 Rhagfyr**
am 7 o'r gloch

**Capel Bethlehem Talybont**
## Ffair Nadolig
yn y festri
Nos Fawrth, 5 Rhagfyr
am 6.30yh
Mynediad: £1.00
Croeso cynnes i bawb

**CAPEL JERUSALEM**
## BORE COFFI
**Sadwrn 25 Tachwedd**
**10.00 - 12.00**
yn y Festri
Elw at y Capel.

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Nos Lun, 11 Rhagfyr 2023**

7.00 Y Cyfarfod Blynyddol
7.15 Dr. Gwen Angharad Gruffudd –
William Mark Owen 3 Teras Penrhyn

**Rhithiol tros Zoom**: Cofrestrwch efo
**bethan@ogwen.org**
Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith
ar yr hwyraf

£10.00 i rai mewn gwaith
£5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif
'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
**BACS: 40-16-02 41386212**
neu gyda arian parod ar y noson

## Cymdeithas Wyddonol Gwynedd

COSTAU PRYDER AMENEDIGOL A DEFNYDDIO'R GWASANAETH IECHYD: DADANSODDIAD ECONOMEG IECHYD.
Llinos Spencer (Prifysgol Bangor)
7.30 NOS LUN RHAGFYR 11 2023

Ystafell 1.07 Canolfan Bedwyr (Neuadd Dyfrdwy),
Ffordd y Coleg, Bangor LL57 2DG.

## Marchnad Ogwen

**Tachwedd 22ain**
**5pm - 8pm**
***HOGIA'R BONC a lobscows***
**Rhagfyr 9fed**
**9.30am - 1pm**
***lobscows***
**Neuadd Ogwen**
**www.marchnadogwen.co.uk**
**facebook instagram**




## DYDDIADUR BOREAU COFFI

**2023**
25 Tachwedd – Festri Jerusalem Bethesda – Elw at y Capel
2 Rhagfyr – Cefnfaes – Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.

**Pwysig**
*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*



## LLUN ELIFFANT AR LÔN BOST



Wyddoch chi pam bod eliffant ar yr A5 yn Nant y Benglog?
Os gwyddoch chi, anfonwch at olygydd y mis nesa


## HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk

YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

# Chwaraeon

## Bowlio efo Bys a Bawd

**Noson Wobrwyo**

Ar Nos Wener 20 Hydref cynhaliwyd Noson Wobrwyo'r Clwb Bowlio yn y brif ystafell yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda.

Cyflwynydd y noson oedd Brynmor Jones, Ysgrifennydd y Clwb Bowlio a Chapten tîm Nos Fercher a rhoddodd Brynmor adroddiad manwl i ni o ganlyniadau a llwyddiannau'r gwahanol dimau bowls yn ystod y tymor.

Meddai Brynmor, "Yn gyffredinol mi gawson ni dymor llwyddiannus iawn gyda'r clwb yn mynd o nerth i nerth. Yn sicr - mae ysbryd da o fewn y clwb."

Nododd hefyd mai peth braf oedd gweld 2 aelod newydd ar ddechrau'r tymor gyda 3 neu 4 arall yn dangos diddordeb ac yn dod draw ar bnawn Llun i'r sesiwn ymarfer. Mae nifer yn barod i helpu ac yn cyd-dynnu, boed hynny'n helpu hefo'r lawnt, yn gwerthu raffl neu wneud te a pharatoi ar gyfer cystadleuaeth ac yn y blaen.

**Cynghrair Glannau'r Gogledd : Tîm Dydd Sadwrn.**

Wrth ddadansoddi perfformiadau'r pedwar tîm dywedodd Brynmor mai'r tymor hwn o bosib' oedd y tymor gorau erioed i ni yn Adran B. Diweddodd y tîm, dan gapteiniaeth Siôn Guto Roberts yn y 3ydd safle gyda 106 o bwyntiau ar ôl curo 9 gêm allan o 16. Mae'r gynghrair hon yn un gystadleuol dros ben gyda thimau cryfion o wahanol ardaloedd yng Ngogledd Cymru yn cystadlu ynddi.

Llwyddodd Siôn Guto i ysbrydoli ei dîm i gyflawni campau rhagorol.

**Cynghrair Ynys Môn a Bangor : Tîm Nos Lun**

Capten : Callum Sorfleet. Daeth y tîm hwn yn bur agos at gipio'r prif safle ar un cyfnod cyn y pen tymor, er mai yn y trydydd safle oedden nhw yn y diwedd. Llwyddodd y tîm i gael 120 o bwyntiau gan ennill 15 gêm allan o 18.

"Ardderchog ac amdani'r flwyddyn nesa' hogia'," meddai Brynmor, mewn sylw a ategwyd gan weddill aelodau'r clwb.!

**Cynghrair y Chwaraewyr Hŷn : Tîm Pnawn Mawrth**
**Capten :Maldwyn Pritchard**

Dyma dîm llawn cymeriadau cystadleuol ond hwyliog, sy'n cyfrif sêr fel Heddwyn Morris a John Baston ymhlith eu chwaraewyr mwyaf amlwg. Mae'r capten cadarn, Maldwyn Pritchard wedi llwyddo i ffrwyno brwdfrydedd rhai fel John Baston gan ei dywys i fod yn gystadleuydd caled ond amyneddgar.

O dan arweiniad y capten dawnus, llwyddodd y tîm hwn i gyrraedd y 4ydd safle gyda 125 o bwyntiau, gan ennill 16 allan o 22 o gemau. Mae'r tîm yn gyfforddus yn Adran B er bod ambell un yn ysu am gael cystadlu yn erbyn timau yn Adran A.

**Cynghrair Môn a Bangor :Tîm Nos Fercher**
**Capten : Brynmor Jones**

Dyma dîm sy'n chwarae mewn cynghrair gystadleuol iawn. Chwaraewyd gemau unigol eleni ar ôl arbrofi efo gemau i barau'r llynedd.

Diweddu yn y 4ydd safle gyda 100 o bwyntiau wnaeth tîm Bethesda gan ennill 12 allan o 18 gêm.

Heb os nag oni bai, uchafbwynt y tymor oedd ennill cwpan Gŵyl Bangor Festival ar lawnt Caernarfon ym Mis Awst yn erbyn Caergybi.



Sam Whitehead yn derbyn ei wobr gan Siôn Guto am ei fuddugoliaeth yn senglau Nos Lun



George Owen y chwaraewr dyblau gorau yng Nghynghrair Nos Lun



Brynmor Jones, Capten ac enillydd Cwpan Gŵyl Bangor



Denzil Jones, chwaraewr gorau senglau dydd Mawrth



Heddwyn Morris chwaraewr gorau y dyblau ar b'nawn Mawrth

Hyfrydwch yw cyhoeddi i Fethesda drechu o 8 gêm i 2.

"Noson fythgofiadwy", chwedl Brynmor, sy'n bur ddidostur wrth ddewis chwaraewyr i'w dîm!

Anrhydedd arall a ddaeth i ran dau o chwaraewyr Bethesda oedd i Callum Sorfleet a Siôn Guto gael eu dewis i chwarae i dîm Môn/Menai yng nghynghrair Sirol Gogledd Lloegr. Mae hynny ynddo'i hun yn dangos pa mor uchel ydy safon eu bowlio ond hefyd mae'n glod i'w hymroddiad.

Roedd Brynmor yn eitha' swil wrth gyhoeddi ei fod o'i hun wedi chwarae deirgwaith i gynghrair chwaraewyr hŷn Gwynedd. Llongyfarchiadau Bryn - mae dy ymroddiad a'th frwdfrydedd dithau yn ddi-gwestiwn.

**GWOBRWYO**

**Y chwaraewyr mwyaf llwyddiannus i Fethesda ymhob cynghrair eleni oedd:**

| Cynghrair | Enillydd Tlws |
|---|---|
| **Cyngh. Môn a Bangor** (Nos Lun) | **Sam Whitehead – Senglau** Ch 16 E 12 C 4 **George Owen – Dyblau** Ch 13 E9 C 4 |
| **Cyngh. Chwarewyr Hŷn Gwynedd** (Dydd. Mawrth) | **Denzil Jones – Senglau** Ch 19 E 14 C 5 **Heddwyn Morris - Dyblau** Ch16 E 10 C 6 |
| **Cyngh. Bangor a'r Cylch** (Nos Fercher) | **Siôn Guto Roberts** Ch 15 E 11 C 4 |
| **Cyngh. Glannau Gog. Cymru** (Dydd Sadwrn) | **Siôn Guto Roberts** Ch 16 E13 C 3 *hefyd yn 3ydd yn Adran B Cyngh. Y Gogledd |

**Twrnamaint Agored (Parau) Bethesda 2023**

Bu dau ddigwyddiad arbennig yn ystod y tymor a'r mwyaf oedd y gystadleuaeth agored i barau a drefnwyd gan Siôn Guto Roberts gyda chymorth y rhai a fu'n paratoi lluniaeth, yn gwerthu raffl ac yn sgorio neu'n mesur ar y diwrnod.

Noddwyd y Twrnamaint gan Richard Jones a'i Fab, John Roberts, Paentiwr, a Chwmni Carpedi Dylan Bells, a hefyd Cwmnïau Londis a Tesco.

Yr ail ddigwyddiad arbennig oedd Twrnamaint Bowls Bethesda (i aelodau'r Clwb yn unig) ac yma eto dymunir diolch i bawb am drefnu a helpu ar y diwrnod.

**DIOLCHIADAU**

Diolchodd Brynmor i bawb a fu'n gweithio mor ddiflino ar ran y clwb, gan gynnwys y criw fu'n gweithio ar y lawnt. Gwerthfawrogwyd gwaith y rhai a fu wrthi'n codi ffens newydd ac a gyfrannodd yn ariannol at y gost.

Hefyd, rhaid peidio anghofio'r rhai sy'n gwerthu raffl a helpu gyda chynnal y clwb. Mae costau cyson yn wynebu pob clwb wrth dalu am aelodaeth yn y gwahanol gynghreiriau ac wrth geisio cynnal y lawnt a'r adeiladau i safon dderbyniol. Mae cael trysorydd gofalus fel Maldwyn Pritchard yn gymorth mawr i gadw trefn ar y llif ariannol.

## Ceisiadau am Nawdd Ariannol

# Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Llandygai** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Cysylltwch am ffurflen gais a bydd angen ei ddychwelyd erbyn 31 Rhagfyr 2023
Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
**Bethan Roberts**,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

## Ceisiadau am Nawdd Ariannol

# Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Llanllechid** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2023

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
**Caroline Jones**,
Cyngor Cymuned Llanllechid,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorllanllechid@ogwen.org

## Ceisiadau am Nawdd Ariannol

# Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Bethesda** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc erbyn 31 Rhagfyr 2023

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
**Bethan Roberts**
Cyngor Cymuned Bethesda,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorbethesda@ogwen.org

# Cofio Wynne Tan-bwlch

Ar y 4ydd o Fedi, bu farw Wynne Roberts o Fryn Difyr, Braich Talog, Tregarth, yn 95 mlwydd oed.

Yn Nhanybwlch uwchlaw Rachub y treuliodd Wynne ei laslencyndod, ac fel Wynne Tan-bwlch yr adnabyddid o gan ei gydnabod yn lleol, ond yn Llan y cafodd ei eni, a hynny yn 1928, yn 1 Green Cottage dros y ffordd i'r efail wrth ymyl y Red Lion ar lan Afon Llan. Dyma'r efail lle'r oedd ei dad, Ifan, yn of, ac yno, yn senedd Llan bryd hynny, wrth weithio'r fegin yn hogyn, y clywodd o lawer am hanes yr ardal – hanesion ffermwyr, chwarelwyr a chrefftwyr eraill, achos dyma'r bobol a fyddai'n galw yn yr efail amlaf i gael rhyw waith haearn neu'i gilydd gan ei dad.

Yno byddai cryn sgwrsio a thrafod a chodi hwyl a thynnu coes yn gymysg â dadlau, ffraeo a bytheirio. Yno y cyfarfu Wynne sawl cymeriad yn mynd drwy'i bethau, ac yno y clywodd o lu o rigymau a dywediadau ffraeth – gweddus a llai gweddus – ac mi aethon nhw ar gof ganddo fo. Ac mi cadwodd nhw yn y cof, a'u hail-adrodd gydol ei fywyd er difyrrwch iddo fo'i hun a'i wrandawyr. Ia, yr efail yn Llan oedd gwreiddyn y diddordeb mewn hanes lleol. Sgwennodd nodiadau lu ar wahanol agweddau ar hanes lleol, a chasglu dogfennau a oedd o bwys iddo fo.

Bu'n selog yng nghyfarfodydd Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen, a chyfrannodd fel Cadeirydd am gyfnod helaeth. Bu'n ffyddlon hefyd i'r achos yng Nghapel Shiloh, Tregarth, a phob amser yn barod iawn ei gymorth.

Peiriannydd oedd Wynne wrth ei waith, ac yn ei anterth roedd o'n ŵr cydnerth fel ei dad. Ei orchwyl olaf oedd ynglŷn â gwaith adeiladu ffordd newydd y glannau – yr A55. Er na bu'n berchennog na thenant ffarm ei hun nac yn chwarelwr, roedd ei ddiddordeb o'n fawr yn y byd amaeth a chwarelydda. Roedd ei daid wedi gweithio yn Chwarel Foel Faban, ac roedd hanes mân chwareli plwyf Llanllechid yn bwysig iawn iddo.

Un o'i bleserau mawr ers yn llencyn fyddai mynd i hel defaid – yn enwedig cael bod yn rhan o'r helfa fawr – Helfa Braich – helfa'r Carneddau i Fuarthau Braich y Brysgyll wrth odre'r Elan. Gwyddai hanes cynefinoedd a helfeydd ffermydd y fro, a bu'n cofnodi manylion y traddodiad arbennig hwn.

Pan fyddai'n sôn am ddigwyddiadau yn y gymdeithas erstalwm, boed nhw'n bethau mawr fel y Streic neu ryw fân helyntion fel angyhydfod teuluol yn mynd i gyfraith, y bobol a oedd yn ymwneud â'r digwyddiadau oedd yn mynd â'i fryd - pobol a'u teuluoedd a'u cysylltiadau.

Roedd Wynne yn dŵad â chyfnod ei blentyndod a'i laslencyndod – y tri degau a'r pedwar degau a chyfnodau cyn hynny drwy atgofion ei rieni a'u rhieni hwythau – yn fyw i ni drwy ei hanesion.

Oedd, roedd Wynne yn cael mwynhad mawr yn adrodd straeon am erstalwm, a bydd sawl un yn cofio'r achlysur yn un o gyfarfodydd Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid y llynedd. Gwynfor Ellis yn llywyddu ac yn barod i holi Wynne a rhoi ambell broc i'r cof pe bai o'n methu. Doedd 'na ddim peryg i hynny ddigwydd y noson honno! Traethodd Wynne yn ddi-dor am awr gyfan – a phan ddaeth sylwadau a chwestiynau o'r llawr, bu wrthi wedyn yn ddi-ball am sbelan go dda.

Roedd yr wybodaeth gymdeithasol o'r math a oedd gan Wynne y math o wybodaeth sydd mor werthfawr yng ngolwg haneswyr proffesiynol, sef tystiolaeth anecdotaidd, am ei bod yn dŵad o'r cof byw, yn seiliedig ar brofiad ac felly'n taflu goleuni ar agweddau, canfyddiadau, rhagfarnau a rhagdybiaethau cymdeithas mewn cyfnod neilltuol. Tystiolaeth hanesyddol na chewch chi mohoni mewn ystadegau nac mewn cofnodion ac adroddiadau swyddogol.

Collodd Wynne ei briod, Megan, ddeuddeng mlynedd yn ôl. Chwith ydi meddwl bod y cwmnïwr difyr a'r sgwrsiwr afieithus wedi ei dawelu. Heddwch i'w lwch. Cydymdeimlwn â'i fab, Paul, a'i wyres, Yasmin, a'r teulu.

*(Ieuan Wyn)*

# Grymuso Gwynedd – lansio cronfa i gefnogi ffyniant cymunedol

Yr wythnos hon bydd cronfa newydd sbon yn cael ei lansio yng Ngwynedd sydd am roi hwb i gymunedau'r sir gan hyrwyddo cynlluniau llawr gwlad. Y nod yw cynnig cefnogaeth ariannol i endidau wireddu prosiectau er budd cymunedol.

Yn brosiect dan arweiniad Menter Môn gyda chydweithrediad Cymunedoli Cyf wedi ei ariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, mae Grymuso Gwynedd yn cynnig cymorth a chyllid o hyd at £10k a £15k tuag at gwahanol gynlluniau. Mae disgwyl i bob cynllun greu budd cymunedol ganddatblygu adnoddau lleol, hyrwyddo'r Gymraeg ac hunaniaeth leol a chefnogi gweithgareddau fydd yn elwa'r ardal. Bydd ystyriaeth arbennig ar godi capasiti ledled y sir, o Feirionnydd i Abergwyngregyn.

Mae Betsan Siencyn, rheolwr y prosiect yn egluro: "Rydyn ni'n annog grwpiau a sefydliadau i gysylltu â ni i ddatgan eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r prosiect cyffrous hwn. Byddwn yn rhoi pwyslais ar gynlluniau sy'n disgyn o fewn tair thema benodol, sef dehongli hunaniaeth leol; datblygu gwasanaethau sy'n hybu llesiant pobl; a datblygu asedau cymunedol."

Bydd staff Menter Môn a Cymunedoli Cyf. yn cynnig cefnogaeth i endidau wireddu eu cynlluniau.

Mae Betsan yn ychwanegu: "Rydym am roi'r siawns gorau i gymunedau ddatblygu datrysiadau eu hunain i'r heriau sy'n eu hwynebu. Rydym yn awyddus iawn i weld ardaloedd sydd heb unrhyw gynhaliaeth bresennol, neu gynhaliaeth isel, yn cyd-weithio â ni i rymuso eu cymunedau, a datrys heriau ar lawr gwlad."

Mae Menter Môn yn galw ar unrhyw endid sydd â diddordeb gwireddu prosiect er budd cymunedol i gysylltu gyda nhw i drafod eu syniadau.

Mae gwybodaeth bellach a manylion ar sut i ymgeisio ar dudalen Grymuso Gwynedd ar wefan Menter Môn, gyda'r cynllun yn annog pobl i ymgeisio ac elwa o'r cyfle cyffrous hwn. Bydd ffenestri ymgeisio bob mis o hyn ymlaen, nes i'r holl gyllideb gael ei ddyrannu. Dyddiad cau y ffenest ymgeisio cyntaf yw'r 8fed o Dachwedd, 2023.

Mae'r prosiect wedi derbyn £1.1m gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gyda chefnogaeth ariannol hefyd gan Magnox ar ran yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

Am fanylion pellach cysylltwch â Betsan Siencyn, Menter Môn arbetsan@mentermon.comneu 07538 129887 neu Llinos Iorwerth, Ateb ar llinos@atebcymru.wales neu 07970 997124

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# Gair neu ddau

John Pritchard

## Buan

Mae 'na dro cyntaf i bopeth. A hyd y cofiaf, dyma'r tro cyntaf i mi anghofio troi'r cloc. Roedd a wnelo'r ffaith nad oeddwn gartra i wneud hynny cyn mynd i'r gwely nos Sadwrn â'r peth. Ond gan mai'r hydref ydi hi, ac mai troi'r cloc nôl oedd rhaid, doedd fawr o bwys. Byddai'n stori wahanol wrth gwrs pe byddwn wedi gwneud hyn yn y gwanwyn gan y byddwn awr yn hwyr ble bynnag y byddai angen i mi fod y bore hwnnw. Awr yn gynnar oeddwn i'r bore o'r blaen. Nid bod hynny o bwys mawr chwaith gan fy mod ar wyliau efo'r teulu a heb gyhoeddiad i'w gadw.

Bythefnos yn gynharach roeddwn i'n nes at ddwy awr yn gynnar ar gyfer un oedfa arbennig. Nid camgymeriad oedd hynny: wedi codi'n blygeiniol oeddwn i rhag bod yn hwyr yn yr oedfa, ac wedi cael taith ddidramgwydd i'r De. Ond peth dieithr fu hynny yn fy hanes, fel y gŵyr rhai ohonoch o bosib. Fûm i erioed y gorau am gyrraedd yn gynnar nac am wneud pethau'n gynnar. Yn gam neu'n gymwys, creadur 'ben set' yn hytrach na 'ben bora' ydw i; ac yn aml iawn, ar y funud olaf posib y caiff rhai tasgau eu cwblhau.

Ond fore Sul, a minnau am unwaith yn gynnar, mi feddyliais am yr adnod sy'n sôn am 'fod yn fuan i wneud daioni'. A mynd ati wedyn i ddechrau meddwl am yr erthygl hon am bwysigrwydd peidio â bod ar ei hôl hi o ran gwneud daioni. Ond wedi dod adra a mynd ati o ddifri, fedraf i yn fy myw â dod o hyd i'r adnod. Mae'n bosib nad ydi hi'n bod o gwbl! Ond beth bynnag am yr union eiriau hynny, mae Paul yn dweud peth tebyg yn ei lythyr at Titus. 'Rhoddodd ef ei hun drosom ni i brynu rhyddid inni oddi wrth bob anghyfraith, a'n glanhau ni i fod yn bobl wedi eu neilltuo iddo ef ei hun ac *yn llawn sêl dros weithredoedd da*' (2:14). ('Awyddus i weithredoedd da' ydi cyfieithiad William Morgan yma.) 'Dwg ar gof iddynt eu bod i ymostwng i'r awdurdodau sy'n llywodraethu, i fod yn ufudd iddynt, *a bod yn barod i wneud unrhyw weithred dda*; i beidio â bwrw anfri ar neb, ond i fod yn heddychol ac yn ystyriol, gan ddangos addfwynder yn gyson tuag at bawb' (3:1-2).

Neges Paul ydi nad yn amharod y dylai dilynwyr Iesu Grist fynd ati i wneud daioni i eraill. Mae'r bobl y bu Iesu Grist farw drostynt i fod mor awyddus â'r Gwaredwr ei hun i wneud daioni i eraill. Does dim lle i gyndynrwydd o fath yn y byd. Maent i fod yn barod ac yn llawn sêl bob amser dros wneud daioni a bod yn heddychol a thrugarog a chariadus ac addfwyn wrth bawb. Nid rhywbeth y medrwn ddewis ei wneud ai peidio yw hyn, ond rhywbeth y dylem ei gofleidio a brysio i'w wneud o gofio'r hyn a wnaeth yr Arglwydd Iesu Grist trosom ni. Adnod neu beidio, yr un a fu'n fuan i wneud daioni ydi'n Gwaredwr ni.

---

EISTEDDFOD GADEIRIOL

## Dyffryn Ogwen

**Nos Wener, 17 Tachwedd 2023**

**Am 6.00yh (Drysau ar agor am 5.45yh) yn Neuadd Ogwen**

**Seremoni'r Orsedd, Cystadlaethau'r Corau**

**Unawdau Lleisiol ac Offerynnol a Chystadlaethau i Ysgolion Uwchradd**

**Mynediad: £4.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)**

**Sadwrn, 18 Tachwedd 2023**

**Dechrau am 10.00yb yn Ysgol Dyffryn Ogwen**

**Gwledd o Gystadlaethau Cynradd:**

**Canu, Llefaru, Offerynnol, Dawns, Celf a Chrefft**

**Mynediad: £3.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)**

# Nyth y Gân



### MELYN YR EITHIN

(a welais yn hogyn yn Nhanybryn)

Nid aur yw pob aderyn, a gwelais
Mewn golau'r un melyn;
Ar hwylus fregus frigyn
Onid gwiw ei liw a'i lun.

### Y LLWYBR TROED

Wrth fynd a hel meddyliau
Ar hyd y llwybr maith
Daeth atgof am yr amser
Pleserus ar y daith.

Mor dawel oedd ym mhobman,
A dim ond ambell gân
A ddenai'n bêr a chyson
O'r coed a'u brigau mân.

Bu tyfiant gwyrdd rhyfeddol
I'w weld o lwyn i lwyn
Ac yno roedd yr awel
Mor gryf ond eto'n fwyn.

O ddilyn taith amryliw
Â'r haf yn llawn o'i sawr
Rhyw wobr fythgofiadwy
Oedd oglau blodau'r llawr.

Ni ellir fyth anghofio
Golygfa wych fel hon;
Ei chadw hi yn drysor
A wnawn o dan ein bron.

### FFOS Y MYNYDD


Datglof o'm cof y cyfan o wylio
Llif hael y ffos fechan,
A deil i fynd rhwng dwylan
I dir y glyn â'i dŵr glân.

O redeg hi eryda y dirwedd
Dan berfedd y borfa,
A'i sŵn undonog swyna
Hedd y waun ar ddydd o ha'.

**Dafydd Morris**



# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Pesychu ar lafar (4)
3 Rhoi mwythau (7)
8 Mae deg ar hugain ohonynt yn gynnar y mis yma (4)
9 Benjamin i Joseff, ac Alun Ffred i Dafydd Iwan (5,3)
10 Gwledydd Prydain Fawr (4,6)
13 Saith 8 Ar Draws yn eu trefn yn sowth fel yn y gogledd (6)
14 Un yw e'n dychwelyd yn llwglyd (6)
16 Ardderchog ac arbennig o dda (5,5)
19 "Mae d'eisiau, O mae d'eisiau; Bob awr - - - - - - - d'eisiau" *(emyn)* (3,5)
21 Saif am hawl cyfreithiol i ymweld â gwledydd eraill (4)
22 Dramau hynod fyr, a doniol fel arfer (7)
23 Mewn priodas i oratorio a'r lleisiau'n canu mewn cytgord a harmoni (4)

## I LAWR

1 Chwithig iawn a chynamserol fydd ei rhoi o flaen y march (4)
2 Mae lle gwynt yn rhy ddryslyd i dyfu gweiryn (7)
4 Lle rydym ni o hyd yn ôl cân enwog D.I. (3)
5 I lanhau'r briw ar ôl niwad brwnt (5)
6 Ysgogi a symbylu (8)
7 "- - - - -  - - - , pob peth a nych"; hen ddihareb broffwydol am y tywydd (5,3)
11 Medi a chasglu cnydau o wair neu wenith (8)
12 Bwriad y gofal yw iddi hwyluso'r geni (8)
15 Ynghanol gorchwyl o fusnes digalon mae'n fater dagreuol (7)
17 Dy - - - - - yw dy dad neu dy fam (5)
18 Prifddinas Sgandinafaidd (4)
20 Aneurin bach yn rhoi dewis (3)

**Atebion erbyn 1af Rhagfyr 2023 *fan bellaf*** *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Tachwedd', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3PD

## ATEBION CROESAIR HYDREF 2023

**AR DRAWS** 3 Canllawiau, 8 Ohio, 9 Genynnau, 10 Agenda, 13 Cell, 15 Poced, 17 Llathenni, 18 Sen, 19 Ymwneud, 21 Rodeo, 24 Dal, 27 Oriawr, 30 Paradwys, 31 Craff, 32 Esblygiad
**I LAWR** 1 Soffa, 2 Pice, 4 Argae, 5 Llanengan, 6 Wynt, 7 Afallen, 11 Gro, 12 Noe, 13 Cnwd, 14 Llifo, 15 Pryd, 16 Cawl, 17 Lled, 18 Sul Gwag, 20 Malais, 22 Odi, 23 Erw, 25 Cosfa, 26 Dail, 28 Athro, 29 Raffl

Ychydig o wallau. Cafwyd 'Llangian' yn lle 'Llanengan' (5 I Lawr) a 'praff' yn hytrach na 'craff' (31 Ar Draws), ac 'ysblygiad' yn lle 'esblygiad' (32 Ar Draws). Dyma enwau'r rhai anfonodd atebion cywir : Elfyn M. Jones, Rachub; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Doris Shaw, Bethesda; Dilys W. Griffith, Abergele; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Judith Hughes, Llangoed; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Gil King, Mynydd Llandygai; Iona Williams, Llanddulas

Llongyfarchiadau mawr i Rita Bullock, Penffordd, Maes-y-Garnedd, Bethesda, Bangor, LL57 3BP am ddod yn fuddugol y tro yma.


Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com